

Pecyn dogfennau cyhoeddus

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
Canolfan Cynhadleddau Medrus, Campws
Penglais, Prifysgol Aberystwyth

Dyddiad:
Dydd Iau, 20 Chwefror 2014

Amser:
10:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Alun Davidson
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Tystiolaeth gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth (10:00 – 10:40) (Tudalennau 1 – 21)
E&S(4)-06-14 papur 1

Yr Athro Jamie Newbold, Cyfarwyddwr Ymchwil a Menter IBERS
Yr Athro Iain Donnison, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol IBERS

3 Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Tystiolaeth gan Cyswllt Ffermio (10:40 – 11:20) (Tudalennau 22 – 42)
E&S(4)-06-14 Papur 2

Gary Douch, Pennaeth Cyswllt Ffermio
Eirwen Williams, Cyfarwyddwr, Menter a Busnes a Phennaeth Rhaglenni
Gwledig

4 Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Tystiolaeth gan Ganolfan Ymchwil

Amgylcheddol Cymru (11:20 – 11:50) (Tudalennau 43 – 70)

E&S(4)-06-14 Papur 3

Dr Shaun Russell, Cyfarwyddwr

5 Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Tystiolaeth gan y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau (CCRI), Prifysgol Swydd Gaerloyw (11:50 – 12:30)

(Tudalennau 71 – 82)

E&S(4)-06-14 papur 4

Yr Athro Janet Dwyer, Cyfarwyddwr
Chris Short, Uwch Gymrawd Ymchwil

6 Papurau i'w nodi (Tudalennau 83 – 85)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror

Ymchwiliad i Gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 ger Casnewydd : Llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Tudalennau 86 – 89)

E&S(4)-06-14 papur 5

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Ymchwiliad i Reolaeth Tir Cynaliadwy
Chwefror 2014**

Trosolwg

Mae Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth (IBERS) yn ganolfan ymchwil ac addysgu a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn ganolbwynt arbenigedd gwyddonol. Gyda 360 aelod o staff, mae IBERS yn cynnal ymchwil sylfaenol, strategol a chymhwysol o enynnau a moleciwlau i organeddau a'r amgylchedd. Felly, darparwn leoliad unigryw ar gyfer ymchwil mewn ymateb i heriau byd-eang fel datblygu adnoddau a thir cynaliadwy ac rydym yn ddiolchgar am gael y cyfle i roi'n safbwynt i'r ymgynghoriad hwn.

Yn ein barn ni, mae angen i reolaeth tir cynaliadwy yng Nghymru fod yn flaengar. Rhaid i Gymru gofleidio'r wybodaeth y mae ymchwil ar ddefnydd tir ac ecosystemau'n ei darparu a'r cyfleoedd a ddarperir trwy ddatblygiadau mewn biotechnoleg planhigion ac anifeiliaid. Yn y dyfodol, rhaid i'n ffermydd ddarparu bwyd mwy maethlon (o ran swm ac ansawdd) mewn ffordd sy'n niwtral o ran carbon ac sy'n cydnabod ac yn parhau bod gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau'n gyd-ddibynnol. Yr her troswaol i fodloni'r nod hwn yw'r angen i gydbwysu blaenoriaethau cystadleuol, sef diogelwch y cyflenwad adnoddau, datblygu economaidd a chadwraeth amgylcheddol.

Rhwystrau i Reolaeth Tir Cynaliadwy

Polisi, demograffeg ac amgylchedd cyfredol

Mae'r rhwystrau i reolaeth tir cynaliadwy yn amryfal. I ddechrau, mae gan Gymru ddiffyg strategaeth defnydd tir ar hyn o bryd, ac mae hyn yn hanfodol i nodi'r defnydd mwyaf priodol o dir yn seiliedig ar allbynnau cynhyrchu ac amgylcheddol ac i sefydlu'r cymhellion polisi iawn i wneud iddo ddigwydd. Yn ogystal, mae ffermio'n ffurfio dim ond rhan fach o ddefnydd tir i'r dyfodol, yn enwedig o ran tir amaethyddol ymylol. Mae sefydliadau ymgynghorol cyfredol yn canolbwyntio gormod ar sectorau ac yn gul o ran eu cwmpas i hwyluso'r gwaith o gyflwyno amcanion amaethyddol, amgylcheddol a chadwraeth yn effeithiol gan dirfeddianwyr a ffermwyr. Mae arnom angen ddull ymchwil ac ymgynghorol mwy integredig o droi at reolaeth tir.

At hynny, nid yw demograffeg bresennol y sector yr un gorau ar gyfer arloesiadau mewn rheolaeth tir. Dengys astudiaethau cymdeithasol nad yw grwpiau hŷn yn buddsoddi nac yn arloesi ar y cyfan, er gwaetha'r ffactorau cymdeithasol-economaidd sydd o'u plaid, yn bennaf mynediad i gyfalaf. Dibynna arloesi ac addasu i fusnesau newydd, heriau amgylcheddol a chymdeithasol ar hyfywedd y boblogaeth ffermio gyda lledaeniad cyfartal o oedrannau, ond ychydig gyfleoedd sydd i ffermwyr ifanc fynd i mewn i'r diwydiant. Mae rhwystrau cymdeithasol-economaidd, fel diffyg mynediad i gyfalaf a phrisiau tir uchel, yn atal graddedigion deallus, ifanc, egnïol mewn amaethyddiaeth. Er mwyn cynyddu arloesedd amaethyddol i'r dyfodol, mae angen goresgyn y rhwystrau cymhleth hyn.

Cyfranwyr: Yr Athro Mike Christie, Dr Peter Dennis, Yr Athro Iain Donnison, Dr Richard Kipling, Yr Athro Jamie Newbold, Mr Dafydd Owen, a'r Athro Nigel Scollan; fe'i rhoddwyd at ei gilydd gan Dr Patricia Gongal

Mae cyflwr presennol ucheldiroedd a mynyddoedd Cymru hefyd yn rhwystr mawr i gyrraedd cyflwr o gynaliadwyedd. Mae'r llystyfiant, y priddoedd a'r cyrsiau dŵr dros lawer o'r ardaloedd hyn wedi dirywio'n ddifrifol. Adlewyrcha hyn etifeddiaeth degawdau o stocio gormodol gyda da byw ac ungnwd o goedwigoedd masnachol wedi'u plannu'n agos mewn tir oedd heb ei goedwigo'n flaenorol. Er mwyn cynnal gwasanaethau ecosystem gwaelodol ac i leihau colledion pridd, nitrogen hydawdd, carbon, a phathogenau i lawr yr afon, rhaid i Gymru ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng dewisiadau defnydd tir i'r dyfodol ar gyfer cynhyrchu a mesurau cadwraeth. Gallai fod angen rhannu safleoedd uchder uwch yn ardaloedd yn unol ag aneddiadau dynol i lawr yr afon i adfer gwlyptiroedd a choetir brodorol er mwyn gwella'r cyfraddau storio a chadw dŵr a charbon. Rhaid rhannu cynhyrchiant yn ofalus yn ardaloedd er mwyn osgoi llethrau a chyrsiau dŵr serth, er mwyn lleihau erydiad pridd, llygredd carbon a nitrogen organig toddedig.

Cynnydd mewn arferion gorau rheoli tir cynaliadwy

Mae angen cynnydd technegol sy'n drawsnewidiol yn hytrach na chynyddrannol. Er mwyn cyflawni diwydiant ac amgylchedd cynaliadwy, mae angen i ni ddysgu sut i gydbwysu diogelwch y cyflenwad allbynnau fferm, gydag economeg fferm a gwasanaethau ecosystem ehangach. Bydd hyn yn gofyn am wybodaeth fanwl am y systemau sydd ynghlwm yn ogystal â'r ffordd y cânt eu heffeithio gan aflonyddiadau fel newid mewn hinsawdd a newidiadau mewn cymhellion polisi amaethyddol. Yn ogystal â deall y systemau ecolegol, diwydiannol ac economaidd, mae angen i ni sicrhau bod yr ymgnawdoliad nesaf o "gyswllt ffermio" wir yn cael ei yrru gan arloesedd. Er mwyn datblygu'r dulliau newydd, trawsnewidiol hyn o droi at ddefnydd a rheolaeth tir, dylid defnyddio cyllid Agri-Tech, DEFRA a'r Cyngor Ymchwil.

Pan fydd datblygiadau technegol ar gael, her ychwanegol fydd sicrhau bod ffermwyr a thirfeddianwyr lleol yn gwneud defnydd ohonynt. Mae gan lawer o'r rhai sy'n weithgar mewn amaethyddiaeth ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth angenrheidiol ar gyfer rheolaeth a gwneud y penderfyniadau gorau posibl. Yn ogystal, dibynna sawl ffermwr ar ffynhonnell incwm allanol, sy'n gostwng yr oriau sydd ar gael ganddynt ar gyfer rheoli tir. Yn yr achos hwn, hwyrach na fydd ganddynt yr amser i fwyhau gwerth y buddsoddiad mewn sgiliau a thechnoleg, ac felly byddant yn penderfynu peidio â buddsoddi. Gall ymgloodio sectoraidd atal arfer gorau mewn rheolaeth tir cynaliadwy rhag cael ei wireddu. Mewn rhai achosion, mae taliadau amaethyddol yn parhau i dalu cymhorthdal i ddewisiadau rheoli is-optimaid. Tansellia hyn y sector proffesiynol, ehangach ac mae'n gwadu tir i newydd-ddyfodiaid. Dylid adolygu taliadau er mwyn i arfer gwael beidio â chael ei wobrwyo mwyach, wrth roi cymhellion i reoli tir sy'n diogelu ac yn gwella darpariaeth gwasanaethau ecosystem.

Mewn sawl achos, gall ffermwyr fod yn agored i integreiddio defnyddiau tir amgen, seiliedig ar ymchwil i arfer amaethyddol traddodiadol, ond hwyrach y cânt eu rhwystro gan ddiffyg hyder neu hyfforddiant. Un ateb posibl i'r rhwystr gwybodaeth hwn yw gwasanaeth allgymorth ac ymgynghorol sy'n cael ei lywio gan ymchwil ac yn bwydo iddi. Gwir batrymau o'r syniad hwn yw ffermydd arddangos. Byddai addysg fwy effeithiol yn cynyddu gwerthfawrogiad yr ymarferwyr o'r sail ecolegol i gynhyrchiant amaethyddol (e.e. bioamrywiaeth yn cynnal ffrwythlondeb pridd), y

cyfyngiadau amgylcheddol i gynhyrchiant, a'r costau i gymdeithas pan fydd y terfynau hyn yn cael eu rhagori (e.e. difrod llifogydd a llygredd).

Mae hyrwyddo arfer gorau'n gofyn am ymgysylltiad effeithiol gyda chymunedau ffermio, a gellir ond cyflawni hyn trwy ddeall y rhwydweithiau cymdeithasol a'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir gan ffermwyr wrth wneud penderfyniadau rheoli. Gall polisi ond gwella'r defnydd o dechnoleg newydd os bydd gyrwyr dewisiadau rheoli is-optimaid yn cael eu nodi'n gywir. Gallai fod gan y gyrwyr hyn ddiffyg gwybodaeth neu hyfforddiant, bodolaeth cymhellion gwrthnysig, neu ddiffyg adnoddau y mae eu hangen i wneud buddsoddiadau tymor hir.

Newid mewn hinsawdd

Cyflwynir sawl her i reolaeth tir cynaliadwy gan newid mewn hinsawdd barhaus, megis digwyddiadau eithafol mwyfwy aml, cynnydd mewn glawiad, stormydd amlach ac ymddangosiad afiechydon a achoswyd gan fector newydd i blanhigion ac anifeiliaid. Heb fesurau i liniaru'r newidiadau hyn, byddant yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant Cymru.

Bydd mynd i'r afael â heriau newid mewn hinsawdd yn gofyn am ddatblygiadau ac arloesedd mewn gwyddor planhigion ac anifeiliaid a rheolaeth tir sylfaenol. Er enghraifft, er mwyn lliniaru afiechydon planhigion ac anifeiliaid newydd, mae angen i ni ddeall yn well y fioleg sylfaenol y tu cefn i'r ffordd y mae'r afiechydon hyn yn lledaenu mewn gwahanol amodau hinsoddol. Er mwyn lliniaru'r cynnydd mewn glawiad ac atal llifogydd, mae angen i ni ddeall yn well sut caiff dŵr ei gadw mewn gwahanol ranbarthau; mae dargadwedd dŵr yn newid yn dibynnu ar ecoleg ardal. Gallai hinsawdd wahanol ofyn am newidiadau mewn defnydd tir a defnydd o adnoddau naturiol ac felly mae ganddynt oblygiadau economaidd a chymdeithasol. Dylai'r polisi i fynd i'r afael â'r heriau sy'n codi o newid mewn hinsawdd, felly, fod yn ymwybodol o ddatblygiadau technegol (e.e. gwrthiant afiechydon mewn cynydu) a golwg sensitif i ofod a chynhwysfawr o ddefnydd tir a chynllunio.

Gyrwyr polisi i fynd i'r afael â heriau

Mae twf cynaliadwy a mwyhau effeithlonrwydd adnoddau'n dibynnu ar gynnal gwasanaethau ecosystem. Mae hyn yn gofyn am werthfawrogi ardaloedd tir sy'n briodol ar gyfer amaethu, defnydd bugeiliol a'r rhai na ddylid eu ffermio.

Gallai mesurau polisi penodol helpu mynd i'r afael â'r her barhaus hon. Ar y cyfan, rhaid i'r polisi adlewyrchu canlyniadau cymdeithasol-economaidd cynhyrchu ar gyfer iechyd tir a dŵr, yn gadarnhaol ac yn negyddol ill dau. Datblygwyd hyn yn rhannol dan agenda rheolaeth dalgylch integredig (Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae yna fanteision cymdeithasol i integreiddio rheolaeth tir ar gyfer gwasanaethau ecosystem yn ffermdir traddodiadol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, suddfannau a storau nwy tŷ gwydr, rheoleiddio cyfraddau llif a phurdeb dŵr, cadwraeth bywyd gwyllt, golygfeydd, treftadaeth ac adloniant. Dylai fod felly cymhellion ariannol mwy ar gyfer y defnydd o arferion rheoli tir gwell. Yn yr un modd, rhaid i ganlyniadau negyddol rheolaeth wael ar gyfer cymdeithas gael eu hadlewyrchu'n well yn y costau economaidd i'r rheiny sy'n gyfrifol. Dylai costau lliniaru canlyniadau andwyol gael eu talu gan y sector, yn hytrach na chan sectorau preifat neu gyhoeddus eraill.

Sut mae diffinio'r ecosystemau allweddol a'r gwasanaethau ecosystem sy'n gwneud synnwyr i Gymru?

Mae ecosystemau yng Nghymru eisoes wedi'u diffinio, ar sail yr astudiaeth o gymunedau planhigion ac anifeiliaid penodol mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

O gymharu, mae diffinio gwasanaethau ecosystem yn rhesymol yn gofyn am gydbwysu blaenoriaethau. Gellir diffinio'r rhain yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd, yn dibynnu ar y defnydd penodol o dir. Er enghraifft, gallai arferion amaethyddol wrthdaro â gwasanaethau ecosystem megis cadwraeth carbon mewn ecosystemau (sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth a chynhyrchiant), hidlo a phurdeb dŵr, adloniant (e.e. traethau a dyfroedd arfordirol glân), ac atal llifogydd. Felly, mae diffinio gwasanaethau ecosystem mewn ardal benodol yn gofyn am bwysu blaenoriaethau perthynol defnydd tir mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig yn ecolegol.

Mae angen felly rhannu tir mewn ardaloedd rhesymol er mwyn adlewyrchu a chydbwysu'r potensial i gynhyrchu a gwendid y tir. Diffinnir gwendid yn ôl effeithiau andwyol posibl ar statws y tir, o ran sut caiff carbon ei atafaelu a'i storio, sut caiff dŵr ei ddargadw a'i burdeb, ac a fydd cynefinoedd blaenoriaeth a chynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu diogelu. Byddai rhannu mewn ardaloedd wedi'i gynllunio'n dda hefyd yn gwella bioddiogelwch cnydau a da byw, hynny yw, yn rhwystro trosglwyddiad afiechydon.

Yn gryno, mae angen i ni ehangu'r diffiniad presennol o wasanaethau ecosystem i roi golwg mwy seiliedig ar systemau. Yng Nghymru, mae angen modelau ymwybodol o ofod sy'n cyfrif am fflycsau a throsglwyddiadau nwyon tŷ gwydr a gronynnau (a all gario pathogenau) dros dirweddau.

Sut mae datblygu gwaelodlin i fesur cynnydd ohono? Mae hyn yn cynnwys sut mae casglu, cydlynu a defnyddio data i gefnogi rheolaeth tir cynaliadwy yng Nghymru.

Diffinnir dwysau cynaliadwy fel cynyddu cynnyrch heb gynyddu ardal y tir a ddefnyddir na chyfaddawdu cynhyrchiant y dyfodol. Wrth anelu at ddwysau a chynyddu cynhyrchiant, os na chyflawnir cynaliadwyedd, bydd ecosystemau sy'n diraddio'n siortio uchelgeisiau economaidd yn gyflym.

Felly, ochr yn ochr â thargedau cynhyrchiant, mae monitro amgylcheddol yn hanfodol i fesur tuag at nodau mewn pridd, dŵr a bioamrywiaeth. Dylai'r gwaith monitro hefyd hysbysu rheolwyr amgylcheddol ynghylch pa ddulliau arloesol sy'n effeithiol a nodi'n glir lle mae angen addasu a datblygu technegau pellach. Mantais ychwanegol i unigolion fyddai bodlonrwydd personol llwyddiant nodedig, er mwyn rhoi cymhelliant pellach iddynt. Ar y cyfan, mae sefydlu ffyrdd ymarferol o fonitro a mesur cynnydd mewn cynaliadwyedd yn hollbwysig i reolaeth tir effeithiol.

Gall technolegau synhwyro o bell ac ymgysylltiad y cyhoedd gyfrannu at oruchwyliaeth a monitro amgylcheddol, yn enwedig cynefinoedd a rhywogaethau dangosydd allweddol neu garismatig (e.e. CobWeb). Er enghraifft, datblygwyd system wedi'i dilysu ar gyfer monitro bioamrywiaeth sylfaenol a threigl neu ysbeidiol dan brosiect BioBio yr UE. Disgrifir bioamrywiaeth o ran amrywiaeth enetig (gan gynnwys bridiau da byw ac amrywiaethau cnydau), organeddau pridd, planhigion ac

anifeiliaid gwyllt a dof a chynefinoedd wedi'u hamaethu a lled-naturiol, ac fe'i cynrychiolir gan banel o ddangosyddion. Er mwyn gostwng costau cyffredinol, mae'r panel hwn yn cynnwys dirprwy ddangosyddion sy'n deillio o ystadegau amaethyddol blynyddol sydd eisoes wedi'u casglu.

Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o ymdrech, adnoddau ac arbenigedd yn cael eu hymroi i'r her o fonitro. Ceir mentrau yn y DU ac Ewrop, sy'n anelu, gyda'i gilydd i sefydlu metrigau cynaliadwyedd safonol, cydlynu'r gwaith o gasglu a rhannu data ac integreiddio'r gwahanol ddulliau o droi at fodelu cynaliadwyedd.

Centre for Agricultural Informatics and Sustainability Metrics

Ar y cyd â phartneriaid diwydiannol a chyhoeddus a chefnogaeth y Strategaeth Agri-Tech, mae Farming Futures (a adwaenwyd yn flaenorol fel Canolfan Ragoriaeth Ffermio'r DU) yn gweithio i ddatblygu'r Centre for Agricultural Informatics and Sustainability Metrics. Prif amcan i'r prosiect hwn yw datblygu dull cynhwysfawr, allweddol o droi at fetrigau cynaliadwyedd, nad yw'n bodoli yn Ewrop ar hyn o bryd. Mae angen i'r dangosyddion gwmpasu tri philer economeg, cymdeithas a'r amgylchedd. Yn aml, dim ond mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol a ystyrir mewn arfer presennol ac esgeulusir ystyriaethau cymdeithasol-economaidd, sy'n amlwg yn hanfodol ar gyfer cynllunio a pholisi.

Nod y prosiect hwn yw symud tuag at gonsensws diwydiant ac academaidd y DU ar fesurau cynhyrchiant a chynaliadwyedd a gytunir yn rhyngwladol, sut i gyfrifo'r mesurau hyn ar draws sectorau, ac arferion cysylltiedig eraill. Bydd y mesurau hyn yn seiliedig ar ddata, er enghraifft, ar gynhyrchiant perthynol i fewnbynnau, a data amgylcheddol, megis priodweddau pridd. Mae datblygiad cychwynnol y dull allweddol hwn bellach yn mynd rhagddo gydag un amrywiaeth o wenith a dau amrywiaeth o gig oen, gyda'r nod o wirio bod y metrigau hyn yn parhau'n sefydlog neu'n gwella gydag amser.

Modelu Amaethyddiaeth Ewropeaidd gyda Newid mewn Hinsawdd ar gyfer Diogelwch Bwyd (MACSUR)

Mae swm helaeth o ddata amaethyddol, economaidd a chymdeithasol-economaidd yn dod o ymchwil, systemau ffermio a chadwyni cyflenwi bwyd. Er mwyn i wneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid allu dehongli a thynnu casgliadau o'r data hwn, er enghraifft gosod gwaelodlin a nodau (economaidd ac ecolegol), gellir integreiddio setiau data'n fodolau amaethyddol. Mae'r modelau hyn yn symleiddio data cymhleth, gan alluogi trosolwg system a fyddai'n helpu hysbysu penderfyniadau polisi.

Mae canolbwynt gwybodaeth MACSUR yn brosiect UE a ddyluniwyd i ddatblygu cymuned modelu amaethyddol Ewrop cyfan. Byddai gallu cryf mewn coladu, rhannu a modelu data ledled Ewrop yn gwella'n gallu i ddarogan effeithiau newid mewn hinsawdd a newid cymdeithasol-economaidd cysylltiedig ar amaethyddiaeth. Bydd y prosiect yn datblygu dulliau modelu integredig sy'n graddio da byw, cynydau ac yn modelu economaidd i'r lefel ranbarthol, er mwyn darparu allbynnau perthnasol i bolisi ar gyfer y sector amaethyddol.

Pa gymhellion allwn ni eu darparu i reolwyr tir ddatblygu arferion cynaliadwy, ac yn benodol, a pha ffynonellau buddsoddi newydd allwn ni eu denu i gefnogi'r rhain?

Mae cymhellion polisi a allai fod yn effeithiol yn cynnwys rhoi gwerthoedd ariannol ar wasanaethau ecosystem, gan gynnwys ar garbon. Gallai system sy'n rhoi gwerthoedd ar wasanaethau ecosystem sy'n dryloyw ac yn hawdd ei deall ffurfio'r sail ar gyfer asesu costau a buddiannau. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod y fath brisiad yn ymdrin â'r holl wasanaethau ecosystem potensial, bod y cyfnewidiadau rhwng gwasanaethau'n cael eu hystyried, a bod y cymhellion yn ddigon i gymell camau gweithredu.

Mater allweddol ychwanegol yw ystyried sut gwneir taliadau ar gyfer darpariaeth gwasanaeth ecosystem. Yn arbennig, o ran cynllun Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem, gallai taliadau fod yn seiliedig ar incwm a ildwyd neu ar y buddiannau a ddeilliwyd. Y mecanwaith cyfredol yw seilio taliadau ar incwm a ildwyd dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol, lle gallai eu seilio ar fuddiannau fod yn anos eu cyflawni oherwydd deddfwriaeth yr UE ar daliadau.

O ran ffynonellau buddsoddi newydd i ariannu cymhellion, mae manteisio ar gyllid seiliedig ar gydgyfeirio'n ddull sy'n cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd. Gellir ystyried bod hyn yn denu buddsoddiad o ffynonellau cenedlaethol a ffynonellau'r UE gan gynnwys o Horizon 2020.

Sut mae sicrhau bod ein polisiau rheoli tir cynaliadwy'n cynnal cymunedau gwledig bywiog ac yn denu ymgeiswyr newydd i'r sector seiliedig ar y tir?

Er mwyn annog cymunedau gwledig bywiog, dylai tir a chyfalaf fod ar gael i newydd-ddyfodiaid i'r byd ffermio a rheoli tir, yn enwedig ar gyfer graddedigion sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol, sy'n llythrennog ar y cyfrifiadur. Gallai'r cymorth ar gyfer y demograffig hwn gynnwys darparu mynediad parhaus i system datblygu a hyfforddiant proffesiynol. Byddai mynediad i hyfforddiant digonol yn hwyluso gallu newydd-ddyfodiaid i reoli heriau cynhyrchu ac amgylcheddol cymhleth rheoli tir.

Mae defnydd rhy hir o dir gan boblogaeth ffermio sy'n heneiddio a gadael tir yn ddwy broblem wrthgyferbyniol sy'n rhwystro'r gwaith o gynnal a chadw cymunedau gwledig bywiog. Rhaid ystyried y materion hyn yn hollataidd o ran daearyddiaeth ddynol, diwylliant, a gwyddor amaethyddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn lleol, rhaid bod gan bobl gefnogaeth ddiwylliannol yn ogystal â chefnogaeth dechnegol. Yn achos gadael tir, gallai'r gefnogaeth hon olygu dargadw gwasanaethau ac amwynderau craidd o fewn cyrraedd cymunedau gwledig.

Beth yw'r raddfa ddaearyddol/graddfeydd daearyddol fwyaf priodol y dylem fod yn cyflwyno polisiau ac arferion rheoli tir cynaliadwy yng Nghymru?

Mae'r raddfa ddaearyddol fwyaf priodol i'w hystyried ar lefel y dalgylchoedd. Deellir y raddfa hon yn dda eisoes ac mae eu nodweddion daearyddol hefyd yn adlewyrchu ffiniau diwylliannol a chymunedol. Defnyddir y raddfa hon yn aml mewn cynlluniau rheoli eraill. Serch hynny, mae gan seilio polisi ar ddalgylchoedd sawl anfantais bwysig y mae angen eu hystyried.

Mae'r rheolaeth dalgylchoedd integredig a ddatblygir gan Gyfoeth Naturiol Cymru'n cynnig enghraifft, ond mae'n bwysig cydnabod y gallai'r fath ffocws ar gefndeuddwr rwystro'r gwaith o rannu'n rhesymol defnydd tir yn ardaloedd. Er enghraifft, ffurfia copaon a thrumiau ucheldir a mynyddig ecosystem cydgysylltiol, daearol; byddai dull dalgylch yn torri'r polisi a'r rheolaeth sy'n berthnasol i'r tir hwn. Byddai'r ardaloedd tir parhaus hyn yn cael eu hisrannu yn unol â safle'r pendyfroedd o bob dalgylch ar wahân, gan beryglu colli cydlynid yr ymdrechion yn yr ardaloedd tir sensitif a phwysig hyn. Cysylltir sawl dalgylch dŵr yn artiffisial gan dwneli bwydo i gronfeydd dŵr ar gyfer cynlluniau trydan dŵr a chyflenwadau dŵr yfed. Felly, gallai'r rheolaeth tir sy'n berthnasol i un cefndeuddwr effeithio ar lif ac ansawdd dŵr y dalgylchoedd eraill.

Serch hynny, dylem fod yn gweithio ar raddfeydd amryfal. Er bod graddfa'r dalgylch yn briodol iawn i ddatblygu polisi rheoli tir (gyda'r ystyriaethau uchod), dylai newidiadau a gwelliannau gael eu monitro'n genedlaethol (gyda thechnegau fel delweddu o bell o gerbydau arial a lloerennau heb griw'n agos), a dylid ystyried mai'r raddfa leol sy'n cynorthwyo ffermwyr orau gyda'r arfau ar gyfer ymyriadau amaethyddiaeth manwl gywir.

Oes camau gweithredu allweddol y gallwn ni eu cymryd i gyflwyno 'enillion cyflym' tymor byr a chamau gweithredu y dylem fod yn eu cymryd ar gyfer y tymor hir?

Camau tymor byr

Ceir sawl cam gweithredu allweddol y gellir ymgymryd â nhw yn y tymor byr i ddechrau mynd i'r afael â'r heriau hyn:

- Cymryd camau tuag at well integreiddio rhwng agronomegwyr preifat, gwyddonwyr amaethyddol, ac ecolegwyr ar gyfer polisi, cyngor ac ymgynoriadau a chynllunio tir. Mae ffermwyr yn debygol o ymateb yn fwy cadarnhaol i wahanol arbenigwyr os cânt gyngor cyson, cydlynol. Byddai cynnydd mewn cydweithrediad hefyd yn gwella'r cyngor ar y cyd-destun ehangach a chanlyniadau potensial gweithgareddau ffermwyr. Byddai cyngor cydlynol ar ganlyniadau ecolegol ac amaethyddol ar gyfer gwahanol ddewisiadau'n galluogi ar gyfer cydbwysu blaenoriaethau ac ymwybyddiaeth well o effeithiau defnydd tir i lawr yr afon.
- Cynnal dadl entrepreneuriaid ar ddyfodol defnydd tir
- Dod â diwedd i gymorthdaliadau ar gyfer ffermio gwael; gorfodi dal Taliadau Sengl yn ôl gan ffermwyr sy'n torri, o leiaf, rheolau'r Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da

Camau tymor hir

Credwn y byddai nifer o gamau'n gwella cynaliadwyedd tir tymor hir yng Nghymru:

- Datblygu platfformau ffermio arloesol sy'n profi ac yn arddangos dulliau seiliedig ar systemau a fydd yn berthnasol dros 30-50 mlynedd

- Taliadau o gronfeydd cyhoeddus yn seiliedig ar ganlyniadau, yn hytrach na gweithdrefnau a gynhaliwyd heb unrhyw waith monitro unigol o ganlyniadau. Yn wir, mae monitro gweithrediadau unigol, er enghraifft, ar gyfer carbon pridd yn hanfodol.
- Datblygu achrediad proffesiynol i reolwyr tir
- Creu gwobrau ar gyfer rheolwyr tir arloesol sy'n integreiddio'n llwyddiannus gynhyrchiant amaethyddol gan barchu cyfyngiadau amgylcheddol y lleoliad a'r canlyniadau ehangach ar gyfer cymdeithas ac amcanion y gymdeithas

Eitem 3



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

DIWEDDARIAD CYSWLLT FFERMIO– Ionawr 2014

Cynnydd cyffredinol

Ers cychwyn y rhaglen yn 2007, mae Cyswllt Ffermio wedi darparu cymorth i **18,768** unigolion unigryw, naill ai drwy wasanaethau â chymhorthdal, neu drwy ddigwyddiadau Cyswllt Ffermio.

Bu 77,584 o bresenoldebau yn nigwyddiadau Cyswllt Ffermio. Mae'r rhain wedi eu rhannu ar draws y cyfnodau gwahanol Cyswllt Ffermio,:

	Nifer o Bresenoldebau
Cyfnod Interim - 01/04/07 - 31/03/08	7,908
Cyfnod 1 - 01/06/08 - 31/08/11	34,106
Cyfnod 2 - 01/09/11 - 31/012/13	35,570
CYFANSWM	77,584

Mae **8,230** (31 Rhagfyr 2013) o fusnesau fferm a choedwigaeth wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, sydd hefyd yn cefnogi cynlluniau eraill Llywodraeth Cymru megis Glastir Sylfaenol, Grantiau Effeithlonrwydd Glastir a'r Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiad.

Isod, gweler cyfanswm nifer o ffurflenni ceisiadau a hawliadau'r gwasanaethau â chymhorthdal sydd wedi'u cymeradwyo ers cychwyn y rhaglen hyd at 31 Rhagfyr 2013:

	Ffurflenni cais wedi'u cymeradwyo	Ffurflenni hawlio wedi'u cymeradwyo
Rhaglen Datblygu Sgiliau	7700*	4926*
Cynllun y Fferm Gyfan	4348	2965
Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr	1689	1316

* Yn ystod y cyfnod interim 01/04/07 - 31/03/08 bu 5,945 o geisiadau ychwanegol am hyfforddiant wedi'i gymeradwyo a'u hariannu.

O'r map isod gwelir y dosbarthiad daearyddol o'r busnesau sydd wedi cysylltu â'r rhaglen Cyswllt Ffermio:

Businesses engaged with the Farming Connect Programme Busnesau'n cyswllt a Cyswllt Ffermio - 10/2013



Cartography by LITM
LITM Ref: 13_1103_9

Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of HMGO

© Crown copyright and database right 2013. All rights reserved.
Welsh Government. Licence number 100017918.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r rhaglen Cyswllt Ffermio yn gweithredu ar nifer o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu tuag at gynlluniau gweithredu nifer o adroddiadau annibynnol. Dyma'r rhai diweddaraf wedi'u crynhoi isod.

Adroddiad Hwyluso'r Drefn

Mae Hwyluso'r Drefn yn adroddiad llawn argymhellion gan Gareth Williams i Llywodraeth Cymru am well rheoleiddio mewn amaethyddiaeth, gan gynnwys 78 o argymhellion ar sut i sicrhau gwell rheoliadau o fewn strwythur addas, diwygio gwasanaethau cwsmeriaid i'r ffermwyr a hefyd sector gyda chynnydd proffidioldeb o bersbectif busnes.

Mae Hwyluso'r Drefn yn bennaf oll yn ffordd o feddwl, yn enwedig yr agwedd tuag at newid; trafodir agwedd y Llywodraeth tuag at ffermwyr a ffermio, agwedd y rhanddeiliaid a ffermwyr tuag at y llywodraeth a rheoliadau ac am baratoi yn iawn ac yn amserol ar gyfer newid.

Mae Cyswllt Ffermio yn cyfrannu tuag at ddarparu argymhellion 6, 24, 43 & 48 fel y disgrifir isod, ac yn hefyd helpu'r diwydiant i baratoi am y newid.

Argymhelliad 6 – pwyslesio manteision cydymffurfiaeth rheoliadol da i gwsmeriaid o safbwynt busnes drwy ymchwilio a datblygu model busnes.

Argymhelliad 24 - TGC Llywodraeth Cymru i drefnu gyda GCFf digwyddiadau ar y fferm ar gyfer ffermwyr i esbonio archwiliadau, a gwella paratoadau'r ffermwyr a lleihau'r ofn.

Argymhelliad 43 - Fe ddylai blaenoriaethau 'dŵr' amgylcheddol (safon sylfaenol) gael ei gynnwys ym mhob cyngor amgylcheddol sy'n cael ei gyfathrebu ar y fferm gan bob sefydliad sy'n darparu cyngor rheolaidd, gan gynnwys storio slyri, lledaenu slyri, gwaredu cemegolion, postian o lannau'r afon, cywasgiad y pridd a rheolaeth glan afon.

Argymhelliad 48 - NEF (Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol) yn cychwyn anelu rheolau amgylcheddol o bersbectif model busnes. Mae hyn yn ganmoladwy, gyda nifer o esiamplau cadarn nawr ei hangen ar gyfer arddangos bod arfer amgylcheddol dda yn gytûn gyda chynhyrchu bwyd wrth wella perfformiad a buddioldeb busnes.

Themâu Trawsbynciol

Mae rhaglen Cyswllt Ffermio yn darparu cefnogaeth i'r diwydiant ar themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, sef yr amgylchedd a newid hinsawdd, iechyd a lles anifeiliaid, iechyd a diogelwch, bioddiogelwch, defnydd effeithiol o TG, menywod a newydd-ddyfodiad.

Mae newid hinsawdd yn thema bwysig yn y rhaglen trosglwyddo gwybodaeth ac mae'r rhaglen yn cael ei werthuso yn ystod yr adeg datblygu i sicrhau bod cyfleon addas yn cael ei hamlygu ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd ym mhob digwyddiad Cyswllt Ffermio.

Cydnherthedd

Mae Adolygiad Kevin Roberts ar gydnerthedd ffermio yng Nghymru yn canolbwyntio ar y sector defaid a biff yn yr ucheldir a mynyddoedd. Mae'r adroddiad yn awgrymu pecyn integredig o fesurau i gael eu hystyried ar gyfer yr ucheldir yn yr RDP nesa, fydd yn gwella'r perfformiad ffermio ac amgylcheddol. O fewn amser, dylai hyn ddarparu cydnherthedd i'r diwydiant. Dylai Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio cyfrannu tuag at y gwaith hwn a chyflwyno cydnherthedd fel thema drawsbynciol ychwanegol yn 2014.

Cynllun Cymorth Newydd Ddyfodiaid (YESS)

Daw mewnbwn Cyswllt Ffermio i'r YESS drwy'r Cydlynwyr Rhanbarthol sy'n esbonio'r broses i'r ymgeiswyr, yn cysylltu hefo swyddogion YESS Llywodraeth Cymru, yn hwyluso'r broses o geisio am gymorth 80% ar gyfer paratoi'r cynllun busnes, ac, er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cyrraedd y gofynion, maent yn eu helpu i gwblhau Asesiadau Sgiliau ar-lein. Mewn sawl achos, y Cydlynwyr Rhanbarthol oedd y pwynt cyswllt i ddarparu ymgeiswyr.

Caiff newydd ddyfodiaid eu hannog i fynyachu holl ddigwyddiadau Trosglwyddo Gwybodaeth, a sefydlwyd sawl Grŵp Trafod i gefnogi pobl ifanc sefydlu busnesau amaethyddol llwyddiannus. Hwylusir 15 o grwpiau ffermwyr ifanc drwy Gymru ar ystod eang o themâu, gan gynnwys ymarferion amaethyddol arloesol, datblygu cyfleoedd newydd a chreu ffynhonnell ariannol ychwanegol i ffermwyr ifanc.

Glastir

Mae Cyswllt Ffermio yn cefnogi Glastir drwy gynnal cymorthfeydd un-i-un i helpu ffermwyr ddewis yr opsiynau gorau ar gyfer eu ffermydd, yn cynnig 80% tuag at gostau mentora i edrych ar yr oblygiadau busnes o geisio am Glastir, a chynnig 80% tuag at y costau o gael ymgynghorwr i baratoi'r dogfennau ategol i gefnogi cais Grantiau Effeithlonrwydd Glastir (GEG). Bu raid i'r holl ymgynghorwyr/mentoriaid sydd yn dymuno gwneud y dogfennau ategol fynyachu cwrs hyfforddiant hanfodol cyn cychwyn ar y gwaith. Os nad oeddent

wedi mynychu'r hyfforddiant, nid oeddynt yn gymwys i wneud y gwaith os oedd y cwsmer eisiau'r 80% o gymhorthdal. Y bwriad oedd gwella'r gwasanaeth, a lleihau'r amser y cymerir i awdurdodi ceisiadau GEG.

Gwerthuso a Dadansoddi

Mae Cyswllt Ffermio wedi caffael sawl gwerthusiad annibynnol sydd bellach wedi eu cwblhau, ynghyd â dadansoddiad gan Arsyllfa Wledig Cymru (Welsh Rural Observatory - WRO) ar arloesed a throsglwyddo gwybodaeth yng Nghymru. Defnyddir y rhain yn sail i'r dystiolaeth ar gyfer y rhaglen olynol yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020.

Mae'r gwerthusiadau a dadansoddiadau canlynol wedi eu cwblhau:

- Arloesedd a Throsglwyddo Gwybodaeth yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 a'r Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd 2014-2020 gan Arsyllfa Wledig Cymru
- Gwerthusiad Agrigop - Rhaglen Datblygu Rheolaeth gan SQW Ltd
- Gwerthusiad Rhaglen Datblygu Cyswllt Ffermio gan SQW Ltd
- Gwerthusiad Digwyddiadau Cyswllt Ffermio gan ADAS UK Ltd
- Gwerthusiad o'r Gwasanaethau â Chymhorthdal Cyswllt Ffermio gan SQW Ltd

Awgrymir yn y gwerthusiadau bod Cyswllt Ffermio wedi bod yn llwyddiannus yn cyrraedd ei nodau allweddol o wella perfformiad busnes ac amgylcheddol, codi lefel sgiliau a chefnogi mwy o bwyslais ar iechyd a lles anifeiliaid a'r defnydd o TG. Hefyd, cefnogir y llwybr presennol o ddatblygu'r gwasanaeth. Dylid nodi bod llawer o'r prif ddarganfyddiadau polisi a ddaeth allan o'r adroddiadau hyn wedi eu rhoi mewn grym yn y cytundebau presennol, sydd yn rhedeg ers Medi 2011.

Bu brandio'r holl wasanaethau fel rhan o Gyswllt Ffermio yn gymorth i osgoi dryswch yn y diwydiant, ac fe'i nodir fel darparwr annibynnol o gefnogaeth a chynghor "y gellir ei hymddiried" yng Ngwerthusiad Gwasanaethau â Chymhorthdal Cyswllt Ffermio. Adnabyddir hefyd yr angen i'r math hyn o gefnogaeth barhau yn y dyfodol, a darparir tystiolaeth annibynnol gadarn i gefnogi cynlluniau i ddatblygu'r RDP nesaf.

Mae'r gwaith a wnaed gan y WRO ar Drosoglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd yn arbennig yn galw am gydweithio ar draws yr RDP, ac yn ehangach, gyda galw parhaol am arferion gweledol a gweithredol o drosglwyddo gwybodaeth, ac ymgorffori cysylltiadau i ymchwil cymhwysol.

Mae adroddiad y WRO hefyd yn amlygu nifer o ymarferion trosglwyddo gwybodaeth dda, gan gynnwys y pwysigrwydd o 'werthu' manteision busnes wrth gymryd rhan mewn trosglwyddo gwybodaeth (yn enwedig wrth drafod materion amgylcheddol a rheoliadol), addasu'r neges i safbwynt rhanbarthau/ardaloedd, a'r angen i flaenoriaethu datblygu proffesiynol oddi mewn i economi'r tir. Mae'r rhain yn flaenoriaethau pwysig yn natblygiad trosglwyddo gwybodaeth yn yr RDP nesaf.

Uned Cyswllt Ffermio

Isadran Amaeth a Materion Gwledig



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

CYSWLLT FFERMIO

Adroddiad ar y Thema Trawstoriadol NEWID HINSAWDD A'R AMGYLCHEDD

YN YSTOD Y CYFNOD 1 FEDI 2011 - 31 IONAWR 2014



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardalweith Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Cyswllt Ffermio - Cefndir

Mae Cyswllt Ffermio yn wasanaeth integredig, uchel ei broffil, sy'n weithredol ar draws Cymru gyfan gyda'r nod o gefnogi teuluoedd ffermio a busnesau coedwigaeth. Caiff ei ariannu drwy'r Rhaglen Ddatblygu Gwledig 2007-2013, sy'n cael ei gyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Ei brif bwrpas yw cynnig cymorth i ffermwyr, coedwigwyr a'u teuluoedd er mwyn eu galluogi i redeg eu busnesau yn fwy effeithlon ac er mwyn diogelu dyfodol eu fferm. Mae'n raglen integredig ar gyfer pob sector gan gynnwys Cig Coch, Llaeth, Defnydd tir ac Organig ac mae'n darparu cefnogaeth i'r diwydiant ar y themâu trawstoriadol - amgylchedd a newid hinsawdd, iechyd a lles anifeiliaid, iechyd a diogelwch, bioddiogelwch, defnydd effeithiol o TG, merched a newydd ddyfodiaid. Gellir crynhoi prif elfennau'r rhaglen fel â ganlyn:

- *Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth.* Nod y rhaglen hon yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn cynorthwyo cynhyrchwyr i fabwysiadu arferion newydd, meincnodi perfformiad, rhannu syniadau, ymateb i anghenion y farchnad ac annog arloesedd
- *Gwasanaethau wedi'u sybsideiddio.* Mae'r Cynllun Fferm Gyfan yn cynnig mentora un i un ar nifer eang o opsiynau, sydd wedi eu cynllunio er mwyn cefnogi twf a datblygiad mewn busnesau amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys Cynllunio Iechyd Anifeiliaid; ac mae'r Gwasanaeth Cyngori Ffermwyr yn cynnig cymorth cyfrinachol, un i un ar y fferm sydd wedi ei anelu at gefnogi deiliaid fferm a choedwigoedd i wella rheolaeth gynaliadwy eu daliad mewn perthynas â Gofynion Rheoli Statudol (SMRs), ac Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol da (GAECs) a safonau sy'n berthnasol i iechyd a diogelwch galwedigaethol.
- *Y Rhaglen Datblygu Sgiliau* sy'n anelu i wella sgiliau unigolion sy'n gweithio mewn sectorau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru er mwyn gwella arferion gweithio, cydymffurfio â deddfwriaeth ac annog arallgyfeirio.
- *Rhaglen Ddatblygu'r Diwydiant (Rheoli Digwyddiadau)* sy'n dosbarthu negeseuon strategol a materion cyfoes allweddol drwy nifer eang o fecanweithiau gan gynnwys seminarau a chymorthfeydd. Mae'r contract yn caniatáu hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru i ddsbarthu negeseuon strategol mewn ym mha bynnag ffurf, amllder a lleoliad sydd yn angenrheidiol er mwyn cael yr effaith â'r defnydd mwyaf.
- Mae *Agrigôp* yn Rhaglen Ddatblygu Rheolaeth sy'n gweithio gyda grwpiau o tua wyth o ffermwyr. Mae'n seiliedig ar y cysyniad o Ddysgu Gweithredol ac mae'n anelu i ysgogi diwylliant o arloesedd ac entrepreneuriaeth.

Mae Menter a Busnes wedi bod yn gyfrifol am ddarparu Cyswllt Ffermio ers mis Medi 2011, a rhwng 1^{af} o Fedi 2011 a'r 31^{ain} o Ragfyr 2013, mae cyfanswm 32,695 o fynychwyr wedi mynychu ein digwyddiadau, gyda 11,985 o'r rhain yn fuddiolwyr unigryw.

2. Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth

Mae'r papur ar thema trawstoriadol yr amgylchedd yn nod mai'r amgylchedd yw ein prif ased. Mae'n cydnabod y rôl werthfawr sydd gan y diwydiant yn rheolaeth yr amgylchedd yn y dyfodol yn ogystal â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau. Mae hefyd yn clustnodi bod rheolaeth amgylcheddol gadarn yn deillio o reoli busnes da. Dylai integreiddio negeseuon amgylcheddol i mewn i bob elfen o'r Rhaglen Cyswllt Ffermio gyda phwyslais ar y defnydd doeth o adnoddau naturiol fel rhan hanfodol ac annatod o reolaeth busnes da.

Mae'r papur ar y thema drawstoriadol newid hinsawdd yn adnabod bod dylai'r Rhaglen Cyswllt Ffermio anelu i annog ffermwyr i fabwysiadu arferion fydd yn arwain at leihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac yn y tymor canolig i'r tymor hir, yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r risgiau a achosir gan newid hinsawdd. Gall nifer o arferion wella proffidioldeb y busnes, er enghraifft, gall effeithlonrwydd mewn cynhyrchiant ffermio drwy hwsmonaeth fwy effeithlon sicrhau lefelau is o nwyon tŷ gwydr (CH₄ yn bennaf) fesul uned o gynnyrch (e.e. litr o laeth neu kg o gig eidion/ cig oen) a bydd rheoli'r defnydd o wrtaith nitrogen a slyri/ tail hefyd yn lleihau'r lefelau o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae newid hinsawdd yn thema trosafael ar gyfer Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth ac mae'r rhaglen wedi ei werthuso yn ystod y cyfnod datblygu er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd addas ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd yn cael ei amlygu ymhob digwyddiad Cyswllt Ffermio.

Mae Atodiad 1 yn crynhoi gweithgaredd y rhaglen trosglwyddo gwybodaeth ar themâu trawsdoriadol Amgylcheddol a Newid Hinsawdd a'u perthynas i amcanion Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod 1^{af} o Fedi 2011-31^{ain} o Ionawr 2014.

Mae cyfryngau digidol a'r wefan Cyswllt Ffermio yn darparu'r cyfle ar gyfer Trosglwyddo Gwybodaeth; caiff podcastau byr eu ffilmio mewn digwyddiadau ac maent yn cael eu hyrwyddo drwy Gwlad ar-lein ac ymgyrchoedd e-bost. Mae Cyswllt Ffermio hefyd wedi gweithio mewn cydweithrediad â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darparu map tymheredd pridd ar-lein ynghyd ag erthyglau technegol ysgrifenedig ar gyfer darparu gwybodaeth ar gyfer y defnydd amserol o adnoddau. Fe ddenodd yr adnodd hwn 3000 o ymweliadau unigryw i'r dudalen rhwng mis Chwefror a Hydref 2013.

ASTUDIAETH ACHOS – ‘Gwella safon dŵr gyda’n gilydd’ – Prosiect Dalgylch Olway (Trosglwyddo Gwybodaeth)

ARDAL DALGYLCH YR AFON OLWAY

Gall gwelliannau syml, cost effeithiol fod yn ddigonol er mwyn sicrhau bod ffermydd da byw yn cydymffurfio â rheolau llygredd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer diogelu cyrsiau dŵr Cymru. Yn Fferm Great House, ger Brynbuga, mae cynhyrchwr eidion Peter Williams wedi archwilio ei opsiynau ar gyfer delio gyda dŵr ffo budr. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys y posibilrwydd o adeiladau stôr slyri gwerth £25,000.

Ond, yn dilyn cyfarwyddyd gan Cyswllt Ffermio, mae Mr Williams yn y broses o weithredu cyfres o syniadau sy’n costio llai na £7,000 er mwyn bodloni deddfwriaeth atal llygredd. Mae Fferm Great House yn un o nifer o ffermydd wedi ei lleoli o fewn Ardal Dalgylch yr Afon Olway. Roedd sampl gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos bod yr afon yn methu â chwrrd â gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Trwy waith Mr Williams fel Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio, cafodd asesiad ffug a oedd yn ffocysu ar y Slyri Silwair a Rheoliadau Olew Tanwydd Amaethyddol. Fe amlygodd hyn nifer o ardaloedd ble gellir gwella ar y fferm o ran dŵr ffo budr.

Ers hynny, mae wedi gweithio gyda Keith Owen, sy’n uwch ymgynghorydd adeiladau ac amgylcheddol ar gyfer ADAS er mwyn edrych ar ffyrdd o ddelio â’r materion hyn. Arweiniodd hyn at Mr Owen yn cynhyrchu adroddiad manwl yn cynghori ar yr hyn y gall ei wneud er mwyn atal dŵr ffo budr. “I ddechrau, roedd Peter yn edrych ar greu stôr slyri newydd, ond does ganddo ddim problem slyri. Mae’r prif broblemau yn berthnasol i reolaeth dŵr budr. Hyn yw’r achos i nifer o ffermydd a pe bai Peter wedi adeiladau lagŵn byddai wedi casglu dŵr glaw y byddai’n rhaid cael gwared ohono gan greu costau ac ymdrech sylweddol. Gan nad oes gan Peter gyfleusterau storio slyri yn barod, buasai wedi bod angen creu stôr gyda lleiafswm o gynhwysedd are gyfer pedwar mis er mwyn cydymffurfio gyda rheoliadau SSAFO,” eglurodd Mr Owen.

Mae gwelliannau yn Fferm Great House yn cynnwys creu ‘gwefusau’ concriid i ymddwyn fel rhwystr i atal diferu o gartrefu gwartheg rhydd ar iard y fferm. “Caiff unrhyw ddiferu halogedig ar iard lân ei ystyried fel llygredd. Gallai’r swm fod yn ddibwys ond caiff ei gofnodi yn ystod unrhyw ymweliad SSAFO. “Gall rhywbeth syml fel creu ‘gwefus’ goncriid yn costio tua £20, a gallai ddatrys y broblem o gynnwys hylif halogedig rhag diferu ar ierdydd glân.” Bydd Mr Williams hefyd yn gwella casglu elifiant o’r clamp silwair, cadw da byw dan do a dargyfeirio dŵr glaw sy’n disgyn ar doeau adeiladau er mwyn ei atal rhag cymysgu â gwastraff anifeiliaid.

Mae ffermwyr eraill yn yr ardal wedi ymweld â Fferm Great House er mwyn gweld y gwaith mae Mr Williams wrthi’n ei gwblhau. Maent hefyd wedi derbyn awr o gyngor cyfrinachol yn rhad ac am ddim ar ei ffermydd ei hunain drwy Gymhorthfa Cyswllt Ffermio. Roedd Mr Owen yn annog ffermwyr i wynebu unrhyw broblemau ar eu ffermydd. “Mae yna ffermwyr sy’n tueddu i gladdu eu pennau yn y tywod ac yn gobeithio bydd y broblem yn diflannu.

Yn syml, gwahanu dŵr glan a dŵr budr yw rhan fawr ohono.” Dywedodd ei fod yn well i ffermwyr fod mewn sefyllfa ble maent yn rhagweithiol rhag wynebu camau gorfodi potensial gan CNC. “Mae nifer o ffermwyr yn ofni wynebu’r broblem gan eu bod ond yn gweld bil enfawr ar gyfer stôr slyri newydd ond mewn realiti gall ond olygu ychydig o welliannau syml a wnaiff eu harbed rhag llawer o gostau a phryder,” dywedodd Mr Owen.

3. Datblygu Diwydiant

Mae gweithgareddau o dan y rhaglen Datblygu'r Diwydiant sy'n cyfeirio at yr amgylchedd a newid hinsawdd wedi cynnwys sesiynau galw mewn Glastir a digwyddiadau Glastir ar ffermydd. Mae seminarau Arallgyfeirio gyda ffocws penodol ar ynni adnewyddadwy hefyd wedi cael eu cynnal yn ogystal â Chymorthfeydd Cynllunio un i un, sydd yn cynnig cyngor ar reoliadau sy'n gysylltiedig â storio slyri, rhoi toeau ar byllau slyri, rheoli gwastraff a phrosiectau ynni adnewyddadwy posibl. Gweler Atodiad 2 ar gyfer gwybodaeth pellach ar ddigwyddiadau.

4. Y Cynllun Fferm Gyfan, Gwasanaeth Cyngori Fferm a'r Rhaglen Ddatblygu Sgiliau

4.1 Y Cynllun Fferm Gyfan

Mae'r Cynllun Fferm Gyfan yn darparu mentora un i un ar nifer eang o opsiynau sydd wedi ei gynllunio ar gyfer cefnogi twf a datblygiad mewn busnesau amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys:

- Diogelu a gwella'r amgylchedd
- Ynni amgen a chadwraeth ynni - gwella proffidioldeb
- Uchafu enillion o fewn systemau ffermio cynaliadwy
- Rheolaeth coedwigoedd – gwneud gwell defnydd o goedwigoedd

Tabl 1 isod yn dangos y ceisiadau Cynllun Fferm Gyfan a wnaed rhwng 1^{af} o Fedi 2011 a'r 31^{ain} Ionawr 2014:

Cyfanswm nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer CFG	2383
Cyfanswm nifer y diwrnodau a gymeradwywyd ar gyfer CFG	7013
Nifer o ffurflenni cais a gymeradwywyd ar gyfer Ynni Amgen+ Arallgyfeirio	155
Canran o geisiadau CFG oedd ar gyfer Ynni Amgen+ Arallgyfeirio	7%
Nifer o ffurflenni cais a gymeradwywyd ar gyfer yr Amgylchedd	853
Canran o geisiadau CFG a oedd ar gyfer yr Amgylchedd a gafodd eu cymeradwyo	36%

4.2 Gwasanaeth Cynghori Fferm

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Fferm (FAS) yn cynnig cyngor cyfrinachol, un i un ar y fferm. Mae'n hyblyg a gellir ei deilwra i anghenion y fferm. Nod y gwasanaeth hwn yw galluogi deiliaid fferm a choedwigaeth i wella rheolaeth gynaliadwy eu daliad mewn perthynas â'r Gofynion Rheoli Statudol (SMRs) ac Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAECs). Mae enghreifftiau o gyngor yn cynnwys:

Rheolaeth tir

- Cynlluniau Rheoli Maetholion (gan gynnwys dadansoddi pridd)
- Rheoli pridd – cywasgiad, erydu a strwythur
- Osgoi naill ai dan-bori neu gor-bori

Diogelwch amgylcheddol

- Cyngor ar reoliadau Parthau Perygl Nitradau (NVZ)
- Rheoli cyfleusterau slyri a silwair ar y fferm
- Arwahanu dŵr glân/ budr
- Rheolaeth cemegau ar y fferm, dip defaid, chwistrellau cnydau, diheintyddion

Tabl 2 isod yn dangos nifer y ceisiadau Gwasanaeth Cynghori Fferm a wnaed rhwng 1^{af} o Fedi 2011 a'r 31^{ain} o Ionawr 2014 ar gyfer y categorïau Rheoli Tir, Diogelwch Amgylcheddol a Rheolaeth Amgylcheddol:

Cyfanswm Nifer Cymeradwyaethau ar gyfer Rheolaeth Tir GCF ¹	983
Canran o gymeradwyaethau GCF oedd ar gyfer Rheolaeth Tir	92%
Cyfanswm Nifer ceisiadau Diogelwch Amgylcheddol ar gyfer GCF	95
Canran o geisiadau GCF oedd ar gyfer Diogelwch Amgylcheddol	9%
Cyfanswm Nifer o geisiadau Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer GCF	140
Canran o geisiadau GCF oedd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol	13%

4.3 Rhaglen Datblygu Sgiliau

Mae'r Rhaglen Datblygu Sgiliau yn darparu cyllid o 80% i ffermwyr tuag at gyrsiau achrededig byr. Mae nifer o'r cyrsiau hyn yn cyfeirio at destunau a materion amgylcheddol a newid hinsawdd, a maent yn cynnwys: Chwistrellu cnydau/ plaladdwyr

- FACTS/ BASIS
- Rheolaeth tyrchod a phlâu
- Codi walïau sych
- Ffensio
- Gosod gwrychoedd
- Coedlannu
- Rheolaeth coedwigoedd

ASTUDIAETH ACHOS – Cynllunio Rheolaeth Maetholion o dan y Gwasanaeth Cynghori Fferm (FAS)

Dadansoddiad pridd yn profi yn fuddsoddiad cadarn

Fferm dda byw 80 erw yng Ngolan, Garndolbenmaen yw Garnedd Hir. Maent hefyd yn rhentu 300 erw o borfa mynydd heb ei wella, sy'n ymestyn i oddeutu 500 troedfedd ac sy'n edrych dros y bae ym Mhorthmadog. Mae gan ffermwr Glyn Williams a'i fab Alan, fuches Wartheg Duon a gaiff eu croesi â tharw Charolais yn ogystal â diadell o 300 o ddefaid. Ymunodd y fferm â'r cynllun Glastir ar ddechrau 2014.

Roedd Glyn Williams wastad wedi ceisio bod ar ben ei reolaeth glaswellt. Roedd yn gwasgaru tail ei hun ac roedd yn bwydo gwrtaith artiffisial yn seiliedig ar ffosffad ond meddylïodd tybed ei fod yn esgeuluso calch. Penderfynodd ofyn am gyngor gan Eiliw Evans, ei gydlynnydd rhanbarthol Cyswllt Ffermio, a wnaeth arwain ato'n ceisio am gyngor technegol drwy Wasanaeth Cynghori Fferm Cyswllt Ffermio. Cafodd David Peers, ADAS, sef mentor wedi'i gymeradwyo ei alw mewn i ymchwilio a chynghori ar raglen rheoli maetholion.

Dywedodd Mr Peers: "Mae Mr Williams yn ffermwr da iawn ond roedd yn pryderu nad oedd cynhyrchiant glaswellt cystal â oedd wedi ei obeithio. Roedd ein dadansoddiad pridd yn dangos lefelau pH isel iawn. Roedd llawer o feillion a glaswellt yn cael traferth gyda pH mor isel â 5.2 tra roedd y cynnwys ffosffad yn uwch na'r lefelau targed." Cynghorwyd Mr Williams ei fod yn gallu arbed arian drwy dorri yn ôl ar ffosffad yn gyfan gwbl, a fyddai'n rhoi'r fantais ychwanegol o leihau llygredd o ddŵr arwynebol. Roedd gan y torïadau hyn fanteision ar gyfer y fferm a'r amgylchedd.

Yna trodd y ffocws i'r tail a gynhyrchwyd gan y gwartheg a sut buasai orau er mwyn uchafu ei werth maethlon ac ariannol, yn ogystal â ble buasai'r lle gorau i'w ddefnyddio.

"Roedd hwn yn ymarfer buddiol iawn. Roedd yn gostau i galchu'r fferm gyfan ond roedd hyn yn golygu bod popeth arall yn disgyn i'w le. Mi fydd y maeth yn y tail yn gallu gweithio yn fwy effeithlon a mi fyddaf yn gallu arbed arian drwy beidio prynu gwrtaith ffosffad i mewn" dywedodd Mr Williams.

5. Agrisgôp

Rhaglen datblygu rheolaeth ar gyfer teuluoedd ffermio yw Agrisgôp. Mae'n dod ag unigolion a teuluoedd at ei gilydd ar lefel leol er mwyn trafod a bwrw ymlaen â syniadau busnes. Drwy weithio gyda'i gilydd fel grŵp, gall aelodau Agrisgôp ddysgu sgiliau rheolaeth newydd, cael mynediad i wybodaeth arbenigol ac archwilio a datblygu dyfodol hyfyw i'w hunain, eu teuluoedd a'u busnesau. Wedi ei selio ar y cysyniad o Ddysgu Gweithredol, mae Agrisgôp yn darparu'r cyfle i gynyddu sgiliau a hyder a fydd yn ei dro yn cynorthwyo aelodau'r grŵp i adnabod syniadau a cyfleoedd ar gyfer eu busnesau. Agrisgôp oedd yn gyfrifol am ddod a'r grŵp Cig Oen Mynyddoedd y Cambrian at ei gilydd.

Mae nifer o grwpiau Agrisgôp yn ystyried opsiynau ynni adnewyddadwy gan gynnwys gwynt, solar a treulwyr anaerobig fel ffurf o leihau ôl-troed carbon a cynyddu incwm. Mae grŵp yn canolbarth Cymru yn ystyried yn benodol lleihad yr effaith tŷ gwydr drwy werthuso ôl-troed carbon eu busnesau. Mae grŵp Agrisgôp Cymru gyfan gyda cysylltiadau cryf â'r sefydliad Ymddiredolaeth Bywyd Gwyllt yn archwilio'r cyfleoedd marchnata sy'n gysylltiedig â systemau ffermio cynaliadwy.

Astudiaeth Achos Agrisgôp – Incwm newydd o fuddsoddiad ynni adnewyddadwy

Ynni adnewyddadwy o bwêr gwynt a solar yw prif ffocws grŵp o wyth ffermwr ifanc o ardal Dinbych. Mae pedwar ohonynt yn gynhyrchwyr llaeth, ac mae'r pedwar arall yn ffermwyr bîff a defaid ond maent oll yn rhannu'r un bryder – biliau ynni sy'n codi'n gyflym a wnaeth daro eu busnesau am gyfanswm o dros £50,000 y flwyddyn yn 2011. Gyda cymorth Cyswllt Ffermio, fe ffurfiwyd grŵp Agrisgôp a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd – weithiau pob pythefnos – er mwyn edrych mewn i'r posibiladau o arallgyfeirio drwy gynhyrchu trydan o ynni adnewyddadwy.

Roeddynt yn rhannu gwybodaeth a profiad, a ymchwilyd mewn i'r cynllun Feed in Tariff sy'n sicrhau incwm sefydlog o ynni adnewyddadwy. Bu arbenigwr ynni adnewyddadwy a ymgynghorydd cynllunio yn ymweld â pob fferm a cwblhaodd arolwg safle a wnaeth ymchwilio'r potensial ar gyfer buddsoddiadau fuasai'n lleihau costau a darparu ffynhonnell arall o incwm.

Roedd adroddiadau gwynt Met Office a brynwyd ar gyfer pob safle yn dangos nad oedd cynhyrchu ynni gwynt yn ddichonadwy mewn rhai lleoliadau, ond roedd potensial ar gyfer cynhyrchu ynni o baneli solar neu dreulwyr anaerobig. Fe wnaeth diwrnod cyllid arbenig gynorthwyo i sicrhau y cyllid angenrheidiol.

Mae'r canlyniad wedi bod yn hynod drawiadol. Mae Meilir Jones, sy'n ffermio 260 o erwau gyda'i dad Dei yn Fferm Gop, Trelawnyd sef Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio yn cynhyrchu trydan o gasgliad o baneli solar 35 cilowatt yn barod. Drosodd yn Maes Tyddyn, Clawddnewydd, Rhuthun, mae ffermwr bîff a defaid Gwion Owen wedi codi tyrbin gwynt, ac mae Aled Morris, ffermwr llaeth hefyd wedi codi tyrbin gwynt yn Marian Mawr, Cwm, Rhuddlan. Am gyfanswm o £1,275,000, mae'r grŵp wedi sicrhau incwm sy'n gyfanswm o ddim llai na £230,000 y flwyddyn – sydd yn warantedig am 20 mlynedd.

Mae buddsoddiad pellach ar y gweill. Mae un o aelodau'r grŵp yn edrych mewn i osod casgliad pellach o baneli solar 150 cilowatt ac mae un arall yn edrych ar opsiynau o dreuliwr anaerobig.

Dywedodd arweinydd Agrisgôp lleol Elaine Rees, "Mae wedi bod yn fuddsoddiad mawr ond mae wedi gwella proffidioldeb ac wedi diogelu costau ynni ar gyfer pob busnes yn ogystal â lleihau'r ôl-troed carbon a cynorthwyo i gwrdd â targedau adnewyddadwy."

6. Newid Amgylcheddol a Hinsoddol – gweithgaredd yn y dyfodol

Bydd gweithgaredd yn y dyfodol yn cynnwys parhau i ddarparu cyngor i ffermwyr o dan y Cynllun Fferm Gyfan a'r Gwasanaeth Cynghori Fferm, yn ogystal â cyllid tuag at Datblygu Sgiliau a hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae adolygiadau amgylcheddol trwyadl yn yn cael eu cwblhau ar bob Fferm Arddangos. Prif nod y adolygiadau yw i ddarparu cyngor cyfrinachol un i un a cymorth i Ffermwyr Arddangos Cyswllt Ffermio ar reolaeth amgylcheddol yn unol â trawsgydymffurfio rheoliadol – mae hyn yn cynnwys storio tail/slyri, silwair, dŵr budr a glân, tanwydd, oel ayyb. Mae'r adolygiadau hefyd yn darparu'r cyfle i adnabod prosiectau sy'n hyrwyddo arferion da ac er mwyn pwysleiddio i ffermwyr beth yw'r manteision i'r busnes o ganlyniad i draws gydymffurfiaid rheoliadol a fydd yn cael ei arddangos mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

Yn 2014, rydym yn gobeithio byddwn yn gallu darparu gwybodaeth ymarferol i ffermwyr ar fanteision traws cydymffurfiaid rheoliadol da. Y nod yw darparu gwybodaeth ymarferol i ffermwyr ar bob agwedd o reolaeth amgylcheddol, er enghraifft, adeiladau a chydymffurfio o systemau storio slyri a silwair yn ogystal â arwahanu dŵr budr a dŵr glân ayyb.

Bydd nifer o weithgareddau, gan gynnwys grwpiau trafod, a digwyddiadau ar y fferm yn cyfeirio at newid hinsawdd ac yn trafod addasrwydd a dichonoldeb ynni adnewyddadwy. Bydd y digwyddiadau hyn yn darparu gwybodaeth a datblygu gwybodaeth ar dechnoleg ynni adnewyddadwy.

Bydd cyfres o chwe digwyddiad yn cael eu trefnu ar foeleri biomas ac er mwyn datblygu gwybodaeth ar foeleri biomas fel cyfle i fusnesau ffermio gyda defnydd ynni uchel. Bydd y digwyddiadau yn darparu gwybodaeth technegol ar ddichonoldeb technegol a economaidd. Yn ogystal â hyn, rydym yn bwriadu cynnal cyfres o dri digwyddiad ar adeiladau a ierdydd, gan gynnwys cyngor ar reoliadau SAFFO a sut i gynllunio adeiladau a ierdydd er mwyn optimeiddio perfformiad.

Ar ddechrau 2013, cafodd gweithdai eu rhedeg a oedd yn anelu i godi ymwybyddiaeth a datblygu gwybodaeth o'r manteision economaidd o fabwysiadu dull wedi'i dargedu tuag at ddefnydd gwrtait hyn yn ogystal â rheoli defnydd gwrtait nitrogen a slyri/ tail er mwyn lleihau'r lefelau o nwyon tŷ gwydr. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu ail-adrodd gyda grwpiau newydd o ffermwyr yn 2014.

Bydd rheolaeth pridd da, sy'n hanfodol ar gyfer elwa o wrteithiau, tail a gwyndynnydd newydd, yn cael ei gynnwys wrth drefnu digwyddiadau yn ystod 2014. Bydd digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r manteision o systemau ffermio sy'n seiliedig ar laswellt drwy ailhadu a adnewyddu glaswellt, defnyddio amrywiaethau newydd, rheoli chwyn a defnyddio meillion ar gyfer cynhyrchu da byw fwy effeithlon yn ran o'r rhaglen yn 2014.

Mae' r defnydd da o laswellt yn fwy pwysig nag erioed o ganlyniad i gostau dwysfwydydd a gwrteithiau, sydd ar hyn o bryd yn uwch nag erioed. Y nod yw i hyrwyddo manteision systemau ffermio sy'n seiliedig ar laswellt yn ogystal â'r defnydd effeithlon o laswellt er mwyn gwella proffidoldeb a chynyddu cynaliadwyedd.

Yn ogystal â digwyddiadau a gweithgareddau er mwyn galluogi ffermwyr i leihau eu dibyniaeth ar ddwysfwydydd wedi eu prynu mewn ac er mwyn darparu gwybodaeth a datblygu gwybodaeth ar destunau megis rheolaeth silwair er mwyn lleihau colledion mater sych/ gwella cynhyrchiant silwair a gwerth maeth silwair er mwyn ei fwydo i dda byw er mwyn cynyddu elw a gwella effeithlonrwydd yn ogystal â tyfu cnydau wedi ei tyfu gartref gan gynnwys sefydlu a defnyddio cnydau porthiant, cnydu i leihau costau bwydo'r gaeaf ac amlygu y manteision sy'n cynnwys ymestyn cyflenwadau bwyd, lleihau costau bwydo yn gyfangwbl a chwrdd â targedau amgylcheddol.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor ar goedwigoedd fferm fel rhan o ddigwyddiadau fferm arddangos er mwyn denu cyneulleidfa ehangach.

Atodiad 1 Crynodeb o weithgaredd y rhaglen trosglwyddo gwybodaeth ar themau trawsdoriadol newid Amgylcheddol a Hinsoddol ac eu perthynas â amcanion Llywodraeth Cymru rhwng y cyfnod o 1^{af} o Fedi 2011-31^{ain} o Ionawr 2014.

Amcanion Llywodraeth Cymru	Math a cyfrif o weithgaredd Trosglwyddo Gwybodaeth (Gweler yr allwedd isod)																Cyfanswm nifer o ddigwyddiadau TG	Enghreifftiau o ddigwyddiadau
	CF	OD	DG	WS	FE	FW	ST	FEC	BC	AA	MM	CL	PD	SH	FS	TA		
Mae'r defnydd doeth o adnoddau naturiol yn ran annatod a hanfodol o reolaeth busnes da		5	15	22	3		1						2		3	16	68	<ol style="list-style-type: none"> Gweithdai pridd (gweithdai) Manteision Cynllunio Rheolaeth Maeth (Grwpiau trafod) Pridd, tail ac arian (digwyddiadau ar fferm) <p>Yn ychwanegol Mae Cynlluniau Rheolaeth Maeth wedi eu cwblhau ar bob Fferm Arddangos</p>
Cynyddu cynydau â/ amgen er mwyn gwella cynaliadwyedd gyda llai o ddibyniaeth ar ddwysfwydydd wedi ei prynu mewn Datblygiad sector âr organig		10	12		5	3			1			2	2		7	6	48	<ol style="list-style-type: none"> Ffocws ar gnydau - manteision tyfu cynydau amgen (Diwrnod Agored Fferm Arddangos) Tyfu cynydau mewn ardaloedd ymylol (Erthygl technegol) Cymorthfa cynydau wedi'i tyfu gartref – (Clinig)
Defnydd effeithiol o laswellt er mwyn gwella elw a cynyddu cynaliadwyedd Rheoli glaswellt fel storfa garbon		17	50		3	20	1		2		2	12	4		7	18	136	<ol style="list-style-type: none"> Taith Astudio Pori Cylchdro i Ffrainc (Taith astudio) Rheolaeth a defnydd glaswellt (Grŵp trafod) Bwletin Silwair: Porthiant da yn dwyn ffrwyth (Erthyglau technegol)
Opsiynau ynni adnewyddadwy gan gynnwys treuliad anaerobig Cynyddu gweithredu ynni amgen			16		4	2					1	8	3	1	2	2	39	<ol style="list-style-type: none"> Treuliad anaerobig (Digwyddiad fferm) Tyrbinau gwynt ar gyfer ffermydd (Taflen wybodaeth) Cymorthfa Ynni Adnewyddol (Cymorthfa)

Rheolaeth carbon yn y pridd Gwella rheolaeth pridd Mabwysiadu ymarferion pridd sy' n diogelu a gwella' r storfa garbon gweler yr amgylchedd a newid hinsawdd uchod		6	15		4	1					1	8	2		2	5	44	<ol style="list-style-type: none"> 1. Paratoi priddoedd ar gyfer y gwanwyn – dangosydd gweledol o iechyd pridd (Erthygl technegol) 2. Rheoli Pridd a'r prosiect PROSOILS IBERS (Cyfarfod grŵp trafod) 3. Rheolaeth maetholion a problemau cywasgiad pridd (Diwrnod Agored Fferm Arddangos)
Ehangu cynhyrchiant garddwriaeth drwy annog eraill yn y diwydiant amaethyddol i weld garddwriaeth fel cyfle		2	12	1	1	1							2		4	2	25	<ol style="list-style-type: none"> 1. Gweithdŷ dadansoddi pridd ar gyfer garddwriaeth (gweithdy) 2. Cynhyrchiant ffrwyth a coed ffrwyth ar raddfa fychain yng Nghymru (Diwrnod Agored Fferm Arddangos) 3. Cnydu wedi ei ddiogelu mewn garddwriaeth (Taflen wybodaeth)
Defnydd llai o ynni Defnydd llai o ynni a gwella effeithlonrwydd ynni																1	1	<ol style="list-style-type: none"> 1. Effeithlonrwydd Tanwydd Tractor (Erthygl technegol)
Cynyddu defnydd meillion er mwyn lleihau defnydd gwrtaith			9	1													10	<ol style="list-style-type: none"> 1. Yr achos dros feillion (Cyfarfod grŵp trafod) 2. Gweithdy canlyniadau yr achos dros feillion a sylffwr (gweithdy)
Cynhyrchiant Organig Datblygu sector garddwriaeth organig			3														3	Dyfodol Cynhyrchu Organig yng Nghymru (Cyfarfodydd grwpiau trafod)

Defnydd cynaliadwy o adnoddau a lleihau ôl-troed amgylcheddol			2	1								3				6	<ol style="list-style-type: none"> 1. Dwysâd cynaliadwy (Gweithdy) 2. Cymorthfa amgylcheddol 3. Digwyddiad fferm prosiect dalgylch Olway - Rheoliadau Amgylcheddol
Defnydd effeithiol o fewnbynau Gwella effeithlonrwydd defnydd adnoddau ar y fferm Cynyddu effeithlonrwydd dŵr			2											1		3	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bwydo gaeaf effeithlon (Erthygl technegol a Grwp trafod) 2. Prosiect Fferm Arddangos- 3. Effeithlonrwydd ynni yn y system laeth (Ifton Hill)
Cynddyddu gorchudd coedwigoedd yng Nghymru Rheolaeth coedwigoedd a coed sy'n gysylltiedig â defnydd tir eraill Cynnydd mewn sefydliad a rheolaeth coedwigoedd Cyfleoedd i ddatblygu mentrau sy'n gysylltiedig â coedwigoedd		2	2		1								1			6	<ol style="list-style-type: none"> 1. Rheolaeth coedwigoedd ar y fferm (Grŵp trafod) 2. Rheolaeth Perllan Ymarferol gyda iechyd a diogewich (Diwrnod Agored Fferm Arddangos) 3. Rheolaeth perllan ymarferol (podcast)
Glaswellt siwgrau uchel														1		1	<ol style="list-style-type: none"> 7. Manteision Glaswellt Siwgr Uchel (Erthygl technegol)
Effeithlonrwydd ynni gwell		1	1													2	<ol style="list-style-type: none"> 8. Egni – Rheoli adnoddau (Diwrnod Agored Fferm Arddangos) 9. Defnydd effeithlon adnoddau ynni a ynni adnewyddol (Grŵp trafod)

Allwedd i fathau o weithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Allwedd	Teitl y digwyddiad
CF	Cynhadledd
OD	Diwrnod Agored Fferm Arddangos
DG	Grŵp Trafod
WS	Gweithdai
FE	Digwyddiad ar y fferm
FW	Taith fferm
ST	Taith astudio
FEC	Cystadleuaeth Menter Ffermwyr
BC	Clybiau busnes
AA	Academi Amaeth
MM	Merched y Maes
CL	Clinig
PD	Podcast
SH	Sioeau
FS	Taflen wybodaeth
TA	Erthygl technegol

Atodiad 2 gweithgaredd Datblygu Diwydiant 1^{sf} o Fedi 2011 – 31 Rhagfyr 2014

Math o Weithgaredd	Nifer	Disgrifiad
Seminar Arallgyfeirio gyda ffocws ar Ynni Adnewyddadwy	4	Galluogi ffermwyr i asesu hyfywedd ac addasrwydd prosiectau ynni adnewyddadwy ar eu ffermydd
Cymorthfeydd Cynllunio		Sesiynau un i un gyda cynghorydd cynllunio – cyngor ar reoliadau cynllunio mewn perthynas â storio slyri, toeau pyllau slyri, rheolaeth gwastraff yn ogystal â potensial prosiectau ynni adnewyddadwy
Digwyddiadau Ffocws ar Fusnes	6	Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys cyflwyniad gan gynghorydd ynni adnewyddadwy
Sesiynau Galw i Mewn Glastir	48	Darparwyd cymorth un i un i ffermwyr oedd yn ystyried ymgeisio am Glastir Mynediad.
Digwyddiadau ar y fferm Glastir	17	Diwrnodau agored ar ffermydd a oedd yn cynnwys taith gerdded o amgylch y fferm, gan arddangos ffyrdd ymarferol o weithredu opsiynau rheoli tir cynaliadwy.

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy


Cyflwyniad tystiolaeth gan Dr Shaun Russell

Mae Dr Shaun Russell yn Gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru (WERH), uned a noddir gan Lywodraeth Cymru gyda chylch gwaith o droi gwyddoniaeth yn bolisi, ac fe'i lleolir ym Mhrifysgol Bangor (gweler Atodiad 2). Ar hyn o bryd mae WERH yn gweithio ar ddarparu tystiolaeth i gefnogi Bil yr Amgylchedd a Strategaeth Bioamrywiaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru, a gweithredu "rheolaeth integredig o adnoddau naturiol" gan y corff amgylcheddol statudol - Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae WERH yn dwyn ynghyd gwybodaeth gyhoeddus a heb ei chyhoeddi ac yn ei chyflwyno i ddefnyddwyr terfynol (y llywodraeth a'r byd academiaidd yn bennaf) mewn ffordd niwtral, ddi-ragfarn. Gan fod yr ymchwiliad hwn yn ceisio cyfrannu at y pwnc cymhleth o reoli tir Cymru yn ddoeth yn y dyfodol, mae'n bosib y bydd rhaid iddo ystyried safbwyntiau ac argymhellion, yn ogystal â thystiolaeth bendant. Felly, y farn a fynegir yma yw barn Dr Russell fel dinesydd preifat, ac nid "barn swyddogol" Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru. Hoffai Dr Russell hefyd gydnabod cyngor ei gydweithwyr: Dr Tim Pagella (Prifysgol Bangor) a Charles Falzon (Ymgynghorydd ar yr Amgylchedd) wrth lunio'r adroddiad hwn.

1. Sut ydym ni'n diffinio ecosystemau allweddol a gwasanaethau ecosystemau mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i Gymru?


Mae rhywfaint o gefndir i "wasanaethau ecosystemau" i'w weld yn Atodiad 1. Cafodd dosbarthiad swyddogaethol ac effeithiol o wasanaethau ecosystemau'r byd ei fabwysiadu gan "Aseiad Ecosystemau'r Mileniwm" (2005) ac fe'i dilynwyd yn 2011 gan Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU (UK-NEA). Mae corff amgylcheddol statudol Cymru - Cyfoeth Naturiol Cymru - wedi addasu'r dosbarthiad er mwyn ystyried ei berthnasedd i Gymru a defnydd lleol (Ffigur 1). Mae'r cynllun hwn yn ddigonol a gellir ei fabwysiadu ar gyfer tasgau a dibenion gwahanol (addysg, asesu adnoddau naturiol, cynllunio a gweithredu datblygiadau). Mae rhai enghreifftiau eraill o gynlluniau gweledol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau i'w gweld yn y ddogfen atodol o ddeunyddiau diagramatig ategol.

Ffigur 1. Cynrychiolaeth o Nwyddau a Gwasanaethau Ecosystemau wedi'i pharatoi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol y DU ac arolwg cynefin "Cam Un" fel sail ar gyfer dosbarthu ecosystemau (cynefin). Mae UK-NEA wedi seilio ei "Gynefinoedd Cyffredinol" ar y system hon (Ffigur 2).

Ffigur 2. Cynefinoedd Cyffredinol Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu'r dosbarthiad hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru, drwy wahaniaethu'r cynefin morol a rhoi rhostiroedd iseldir gyda glaswelltir (Ffigur 3).

Ffigur 3. Deg Cynefin Cyffredinol Cymru

The 10 Broad Habitats for Wales			
Freshwater and wetlands	Urban	Marine Inter-tidal	Coastal Margins
		Marine Inshore	
		Marine Offshore	
Upland	Heathland and Grassland	Arable	Woodland

Gall ecosystemau ddigwydd ar unrhyw raddfa a gall canlyniadau rheoli tir gael eu llunio gan brosesau sy'n gweithredu ar raddfeydd gwahanol. Felly dylai'r holl ecosystemau sy'n cyfrannu at fywoliaeth pobl yng Nghymru gael eu hystyried wrth lunio polisiau a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ecosystemau y tu allan i Gymru lle mae ein gofynion yn cael effaith, e.e. mewnfario bwyd, porthiant a ffibr.

2. Sut ydym ni'n datblygu gwaelodlin ar gyfer mesur cynnydd? Mae hyn yn cynnwys y ffordd rydym yn casglu, cydlynu a defnyddio data i helpu i reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru.

Yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae UK-NEA wedi amcangyfrif bod 20% o'r gwasanaethau ecosystemau cynefinoedd wedi gwella, tra bo 49% wedi dirywio. Mae ardaloedd problematig yn cynnwys pysgodfeydd môr, amrywiaeth rhywogaethau gwylt, a rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan briddoedd (Ffigur 4). Mae enghreifftiau o'r math o "gyfaddawdu" a wnaed yng Nghymru yn ystod y ganrif ddiwethaf yn cynnwys draenio gweundiroedd mawn ar gyfer coedwigoedd, newid y rhan fwyaf o'n glaswelltiroedd lled-naturiol i wella tir pori, a cholli ardaloedd o dwyni tywod i dir amaeth, coedwigaeth, tai a thwristiaeth.

Ffigur 4. Gall arferion rheoli tir gwael arwain at gollu pridd a siltio cyrsiau dŵr (B. Vaughn, CNC).



Mae UK-NEA (2011) yn rhoi braslun o statws a thueddiadau yng nghyflwr cynefinoedd a gwasanaethau ecosystemau yn y DU gan gynnwys Cymru. Mae prosesau a safleoedd sy'n berthnasol ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru yn cael eu monitro gan nifer o sefydliadau, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg ("sector gwladol"); RSPB a Chanolfannau Cofnodion Lleol (Cyrff Anllywodraeth); Dŵr Cymru/Welsh Water (sector preifat). Mae'r gwaith monitro ei hun yn cael ei fonitro gan Fframwaith Arsylwi Amgylcheddol y DU: <http://www.ukeof.org.uk/>. Mae monitro yn parhau wedi'i ogwyddo o blaid targedau traddodiadol megis presenoldeb/absenoldeb rhywogaethau neu ansawdd aer/dŵr, er enghraifft. Er mwyn darparu gwaelodlinau a data tueddiadau cadarn, mae'n rhaid ehangu cwmpas gwaith mesur a monitro gwasanaethau ecosystemau (e.e. cylchu pridd, carbon a maetholion). Yn arbennig mae'n

rhaid i ni fapio **llifoedd** gwasanaethau o'r ffynhonnell i fuddiolwyr os ydym am sicrhau dewisiadau a chyfaddawdu doeth ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

Wrth fesur cynnydd bydd rhaid i ni gael amcanion eglur ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy, y gall dangosyddion allweddol ddeillio ohonynt. Bydd rhaid i ni fonitro'n barhaus cyflwr ein hecosystemau a'u gwasanaethau yn erbyn cyflwr iechyd a lles dynol. Ar hyn o bryd ceir gorddibyniaeth ar ddangosyddion economaidd traddodiadol, sef cynnydd a lles dynol. Mae'n rhaid gwneud mwy o ymdrech i fonitro newidynnau cymdeithasol a diwylliannol dynol, ochr yn ochr â pharmedrau amgylcheddol. Gydag un neu ddau eithriad prin yw'r arbenigedd neu'r gallu sydd gennym ni yng Nghymru ar gyfer economeg amgylcheddol, prisio gwasanaethau ecosystemau a chyfrifyddu amgylcheddol cost-gyfan.

Mae bron pob ymyrraeth rheoli adnoddau naturiol yn debygol o newid y cydbwysedd rhwng y rhai sydd ar eu "hennill" ac ar eu "colled", ond bydd y rhai sydd ar eu "colled" bob amser yn bresennol. Felly bydd cydraddoldeb cymdeithasol yn parhau i fod yn bwnc pwysig i'r rhai sy'n llunio polisiau a gwneud penderfyniadau.

3. Pa fentrau allwn ni eu darparu i reolwyr tir er mwyn iddynt allu datblygu arferion cynaliadwy, ac yn arbennig, unrhyw ffynonellau newydd o fuddsoddiad y gallwn eu denu i gefnogi'r rhain?

Mae gan dros 75% o'r ardal tir a môr yng Nghymru ryw fath o ddynodiad amgylcheddol neu gadwraeth, gan adlewyrchu'r gwerth uchel a roddir ar ei nodweddion naturiol a diwylliannol gan ein dinasyddion, a gan y miliynau o ymwelwyr i Gymru. Felly mae'n rhaid meddwl yn fwy eang am yr hyn a olygwn wrth reoli tir mewn modd "cynhyrchiol" wrth gymell rheolwyr tir i warchod a gwella amrywiaeth lawn o wasanaethau ecosystemau ar gyfer eu hyfywedd eu hunain ac er lles cymdeithas yn gyffredinol.

Dylai cymhellion gael eu darparu ar bob lefel. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Uwch-wladol - e.e. ERDF Ewropeaidd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Horizon 2020, Life+ a chronfeydd "gwyrddu" CAP/RDP
- Gwladol - e.e. Cronfeydd "Adfer Natur" a "Gwydnwch Ecosystemau"
- Sector preifat - e.e. cronfa "Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr" Dŵr Cymru/Welsh Water
- Cyrff Anllywodraethol a chymdeithas sifil - cronfeydd gwirfoddoli, "gwyddoniaeth dinasyddion", aelodaeth a phrosiectau. Er enghraifft, menter gwasanaethau ecosystemau seiliedig ar fferm "Pontbren" yng nghanol Cymru, a Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol Cymru. Mae'r ddau wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri:

http://www.pontbrenfarmers.co.uk/project_background.html

<http://wl.communitylandadvice.org.uk/>

Cyflwynwyd amryw o ddewisiadau i geisio annog rheolwyr tir i fabwysiadu arferion mwy cynaliadwy yng ngweithdy Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru ar y thema "Marchnadoedd Coll ar gyfer Gwasanaethau Ecosystemau" yn 2010:

<http://www.werh.org/EcosystemServicesMissingMarketsWorkshop.php>

Rhoddodd Paul Sinnadurai o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog drosolwg o sut y gallai hyn weithio, gyda rhywfaint o addasu polisi yng nghyd-destun Cymru:

"Cyfuniad o brosiectau sy'n fwy seiliedig ar y tirlun a phrosiectau 'cychwyn' llai. Yn hytrach na bod y Llywodraeth yn prynu gwasanaethau ecosystem (PES) gan y ffermwr neu'r tirfeddiannwr, byddai prosiectau llai yn cael eu gwahodd i gynnig am 'fenthyciad' cychwyn llai drwy'r cynllun amaeth-amgylcheddol, er mwyn deori mentrau newydd seiliedig ar reoli tir mewn pridd, dŵr, ynni adnewyddadwy, rheoli coetiroedd a bioamrywiaeth, fel ffordd o wella gwerth marque fferm eu mentrau bwyd a da byw."

<http://www.werh.org/documents/Sinnadurai-Anewbusinessmodelfordeployingagri-environmentschemes.pdf>

Darparwyd brasluniau o brosiectau gwasanaethau ecosystemau ar waith, gan gynnwys y cynllun "Talu am Wasanaethau Ecosystemau" (PES) ar draws y DU yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Reoli Ecosystemau, a chafodd ei noddi ar y cyd gan CNC, ym Mangor yn Hydref 2013:

<http://www.wisenetwork.org/eeac2013/>

Roedd y cyflwyniad ar gyfer Lloegr yn cynnwys Pecyn Cymorth Dull Gweithredu Ecosystemau Countryside; Pecyn Cymorth yr Amgylchedd Lleol a Datblygu Economaidd; gwaith Natural England ar fapio gwasanaethau ecosystemau; yr Adnodd Trosglwyddo Gwasanaethau Ecosystemau; prosiectau peilot Gwasanaeth Ecosystemau Ucheldiroedd yn Bassenthwaite, South Pennines ac yn Ne-orllewin Ucheldiroedd Lloegr; a phrosiect Defra, Taliadau seiliedig ar Le ar gyfer Gwasanaethau Ecosystemau: http://www.wisenetwork.org/wise/wp-content/uploads/ESS-England_web.pdf

Roedd y cyflwyniad ar gyfer yr Alban wedi tynnu sylw at Raglen Ymchwil Strategol yr Alban (Thema Ecosystemau) gan ganolbwyntio ar 20 o brosiectau rheoli ecosystemau ar draws yr Alban.

Rhoddwyd sylw arbennig i'r prosiect "Carse of Stirling" a Phrosiectau Peilot Strategaeth Defnydd Tir yr Alban ar garbon a newid hinsawdd, adloniant a thwristiaeth a'r diwydiant cynhyrchu pren:

http://www.wisenetwork.org/wise/wp-content/uploads/ESS-Scotland_web.pdf

Roedd y cyflwyniad ar gyfer Cymru gan Dr Emyr Roberts, wedi amlinellu cefndir Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi tynnu sylw at yr astudiaethau achos rheoli ecosystemau canlynol: corysdd Môn a Llŷn; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Berwyn a Migneint; Menter Mynyddoedd Cambrian; prosiect Pontbren; Map Pysgod Môn; y Llarwydden yng Nghymru; "Catchment Connectivity"; Coedwig Cwm Rhaeadr, a phrosiectau "Rainscape" a "First Milk": http://www.wisenetwork.org/wise/wp-content/uploads/ESS-Wales_web.pdf

Methodoleg addawol ar gyfer cymhwyso PES i ddulliau cynaliadwy o reoli tir fu'r broses "arwerthiant o chwith". Yn y "River Fowey Improvement Auction" a gynhaliwyd yn Lloegr, mae ffermwyr yn cynnig yn raddol am gronfeydd gwella ecosystemau gan y cwmni South West Water ar gyfer buddsoddi mewn eitemau megis storfeydd slyri a ffensys, i wella ansawdd dŵr ac felly lleihau'r gost o drin dŵr yfed. Adroddwyd ar y prosiect yn y gweithdy "Dull Gweithredu Ecosystemau ar gyfer Bioamrywiaeth a Lles Dynol" a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru ar 4-6 Chwefror 2014:


<http://www.werh.org/PlasTan%20Y%20Bwlch/2014/Plastanybwlch2014.php.en>

Roedd astudiaeth Arsyllfa Frenhinol Cymru o "Benderfyniadau Ffermwyr" (2011) wedi ceisio ymatebion ffermwyr i'r syniad o: "ddull gweithredu integredig o fynd i'r afael â'r heriau cadwraeth, addasu i newid hinsawdd a diogelwch bwyd." Darganfu fod: "Busnesau bach, arbenigol, gyda sylfaen defnyddwyr lleol gryf, yn arbennig o wydn ac yn cael eu hystyried yn fodel pwysig yn y symudiad tuag at arbedion carbon isel." Nodwyd: "Byddai cynllun grantiau bach i helpu gwaith cadwraeth wedi'i dargedu ar ffermydd sydd heb fod yn briodol i'w cynnwys yn llwyr yng nghynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, yn ffordd o gael mwy o ffermwyr i ymgysylltu ag amcanion amaeth-amgylcheddol".

Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys:

- Annog ffermwyr i ddatblygu marchnadoedd lleol ar gyfer peth o'u cynnyrch
- Yr angen i adeiladu marchnadoedd/mannau lleol a chynyddu'r cymorth i frandio cynnyrch
- Yr angen i ailgyflwyno systemau plannu, coedlannu, defnyddio cynnyrch pren lleol, naddion pren a system ddŵr ar raddfa fach i fwydo i mewn i systemau cymunedol
- Arallgyfeirio i gynhyrchion heb fod yn gynhyrchion bwyd
- Grantiau bach ar gyfer gwelliannau ymyl caeau, adleoli gatiâu, gwahanu elifiant/dŵr ffo (draenio cynaliadwy)
- Mwy o geisiadau ar y cyd am cymorth grant, gyda chwmnïau yswiriant a chwmnïau dŵr fel ffynonellau posibl o incwm
- Dylai'r rhwystrau a wyneba ffermwyr Cymru gael eu cydnabod a dylai taliadau adlewyrchu hyn.

Oherwydd ei daeareg, ei phriddoedd a'i hinsawdd, ni all Cymru byth fod yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu bwyd gyda'r boblogaeth a'r lefelau bwyta presennol; bydd rhaid i ni ddibynnu ar fewnforion bob amser. Fodd bynnag, dylem ni allu gwella ein cydbwysedd bwyd mewnforio-allforio ac effeithlonrwydd y gadwyn fwyd, drwy gyfuniad o ymdrechion i leihau'r hyn sy'n cael ei fwyta (gyda'r manteision iechyd a lles cysylltiedig) a chynyddu'r hyn a gynhyrchir. Yn ystod y ddau Ryfel Byd roedd cynnyrch â'r wedi dyblu yng Nghymru (Ffigur 5), a gallai "dwysáu cynaliadwy" yn yr amgylchedd gwledig ddarparu manteision tebyg yn yr 21ain ganrif. Mae hefyd posibiliadau mawr ar gyfer amaethyddiaeth "o gwmpas ac o fewn trefi, wedi'i alinio er enghraifft â choridorau adloniant a bioamrywiaeth yn ein tirluniau trefol. Mae gwaith cynyddol Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol, a nifer o sefydliadau "rhandiroedd" eraill yn y DU, yn arwydd o'r diddordeb a'r cynnydd yn y maes hwn.



Ffigur 5. Tir ar ddaliadau fferm yng Nghymru, 1867 - 2007 (hectar) - (Arolwg Amaethyddol Cymru, 2008)

Roedd adroddiad 2009 Is-grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd, Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru hefyd yn ffafrio dwysáu cynaliadwy. Unwaith eto, argymhellwyd arallgyfeirio'r economi wledig, gan ehangu cynydu garddwriaethol a thŷ gwyr, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy o gynlluniau ynni dŵr, gwynt, biomas, haul, ffotofoltäig a gwres o'r ddaear. Rhagwelwyd rhaglen fawr o blannu coetiroedd ochr yn ochr â "systemau ffermio cymysg helaeth, gan wneud y mwyaf o arbed adnoddau o gynhyrchu bwydydd ar ffermydd a lleihau'r defnydd o wrteithiau. Byddai'r lleihad hwn yn cael ei gydbwysu gan lai o alw am gynnyrch anifeiliaid drwy leihau'r hyn sy'n cael ei fwyta, a lleihau gwastraff yn y gadwyn fwyd. Mae systemau o'r fath yn aml wedi'u cysylltu â chadwyni bwyd lleol llawer gwell, mwy o hunan-ddibyniaeth, ac i'w gweld yn cynyddu cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol dros amser." Awgrym dadleuol oedd systemau dan do, dim pori ar gyfer anifeiliaid stoc, gan ddal methan i atal allyriadau carbon.

Bydd prif ffrydio a gwreiddio dull yr ecosystem ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru yn gofyn am "newid mewn syniadau ecolegol sy'n cydnabod yr elfen gymdeithasol fel rhan o'r ecosystem a'r angen am dulliau cyfranogol er mwyn adnabod ac integreiddio gweithgareddau dynol 'traddodiadol' o fewn rheolaeth cadwraeth." Mae ffyrdd o gyflawni hyn wedi cael eu harbroti drwy ddefnyddio "Model Cyflawni Lleol Integredig" (ILD) y Grŵp Cyngori ar Fwyd Gwyllt yn Walmore, Swydd Gaerloyw. Mae gan y fenter wledig hon elfennau tebyg i'r ymagwedd "cynllunio dan arweiniad y gymuned" sy'n gyffredin mewn amgylcheddau trefol.

Cafodd adroddiad ar y dull ILD: "Inspiring and Enabling Local Communities: an integrated delivery model for Localism and the Environment" ei baratoi gan y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol yn 2010, ac mae hefyd ar gael drwy wefan cynhadledd Rheoli Ecosystemau Ewropeaidd Bangor: <http://www.wisenetwork.org/wise/wp-content/uploads/Jenny-Phelps.pdf>

4. Sut ydym ni'n sicrhau bod ein polisïau rheoli tir yn gynaliadwy yn cynnal cymunedau gwledig bywiog ac yn denu pobl newydd i'r sector tir?

Efallai fod angen cael meini prawf mesuradwy ar gyfer "bywiogrwydd" a hyfywedd cymunedau gwledig, e.e. nifer y swyddi, ysgolion, siopau, clinigau, tafarndai, swyddfeydd post, capeli, digwyddiadau diwylliannol, prosiectau cymunedol, ymwelwyr ac ati.

Cefnogi hyfforddiant i sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan o gwricwla amaethyddol.

Annog systemau ffermio cydweithredol sy'n cefnogi cymunedau lleol drwy amryw o gynhyrchion gan gynnwys ynni a mynediad i adloniant yn ogystal â bwyd.

Cefnogi arbrofion mewn cynhyrchu cynyda newydd a thraddodiadol, gan gynnwys ar raddfa fach i farchnadoedd lleol.

Cefnogi prosesu prif gynnyrch ar ffermydd ac yn lleol.

Defnyddio polisïau cynllunio i hyrwyddo synergeddau rhwng cynhyrchwyr a chanolfannau cymunedol lleol.

5. Beth yw'r raddfa(raddfeydd) daearyddol mwyaf priodol ar gyfer darparu polisïau ac arferion rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru?

Mae gwneud penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth gwasanaethau ecosystemau yn debygol o gael eu gwneud ar dair graddfa:

Graddfa leol - dyma'r raddfa y mae penderfyniadau llawr gwlad yn cael eu gwneud ynghylch newid defnydd tir. Y prif actorion ar y raddfa hon yw ffermwyr, rheolwyr coedwigoedd neu ddefnyddwyr tir eraill. Mae'n cwmpasu caeau a ffermydd hyd at raddfa tirlun o 10-1,000² km lle mae gwasanaethau ecosystemau i'w gweld gyntaf (e.e. is-dalgylchoedd neu rwydweithiau cynefinoedd), a gellir eu rheoli, drwy fentrau cydweithredol ffermwyr neu fentrau tebyg sy'n cwmpasu ardal o dir cyfagos.

Graddfa ranbarthol - fe'i diffinnir fel y raddfa rhwng y lleol a'r cenedlaethol. Dyma'r raddfa y mae nifer o benderfyniadau polisi yn ymwneud â'r ddarpariaeth gwasanaethau ecosystemau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd ac yn gyffredinol mae dros 1,000km², ond yn is-genedlaethol.

Graddfa genedlaethol - fe'i diffinnir fel y raddfa y mae penderfyniadau strategol am wasanaethau ecosystemau yn cael eu gwneud. Mae'n cynnwys cyd-destunau uwch-genedlaethol, traws-ffiniol mewn rhai lleoliadau (e.e. rhai prif lynnoedd a rhwydweithiau ardal a warchodir). Mae asesiadau ar raddfa genedlaethol yn tueddu i ddefnyddio setiau data cenedlaethol wedi'u hagraegu, sydd ar y

cyfan yn fras iawn o ran yr ardal a gwmpasir. Ond yn y pen draw, mae'n rhaid i bolisi gael ei gyflawni ar bob graddfa lle bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Mae adnodd "Map Tir" CNC yn fan cychwyn da ar gyfer mapio adnoddau naturiol, ond mae'n haeddu llawer mwy o adnoddau i'w ddatblygu a'i wella i helpu i wneud penderfyniadau lle bydd rhaid ystyried stociau a llifoedd gwasanaeth ecosystem.

6. Oes camau gweithredu allweddol y gallwn eu cymryd i gyflawni atebion tymor byr cyflym a pha gamau dylem ni eu cymryd yn y tymor hir?

Er y gallai fod yn fwy heriol yn weinyddol, hyrwyddo cysylltiadau rhwng y gymuned leol fel defnyddwyr a ffermwyr lleol fel cynhyrchwyr.

Annog amrywiaeth o gynhyrchion.

Adeiladu ar waith mentrau y Mynyddoedd Cambrian a Phontbren.

Adnabod ardaloedd lle y gall cymhlethdod ecolegol gael ei ailgyflwyno heb gael effaith ar fywoliaeth ffermwyr (ym Mhontbren, er enghraifft, plannwyd 120,000 o goed mewn 1000 hectar heb unrhyw effaith negyddol ar y fferm).

Lleihau costau ffermwyr yn teithio i farchnadoedd a gwerthu'n uniongyrchol - gweler gwefan Marchnadoedd Ffermwyr yng Nghymru: <http://www.fmiw.co.uk/>

Ystyried rôl y prif gadwyni archfarchnad o ran cefnogi neu danseilio cynhyrchwyr lleol.

Defnyddio'r system gynllunio i atal datblygu ffermydd sy'n anghymesur o ran graddfa i'r amgylchedd mewn ardaloedd sensitif (e.e. "ffermydd enfawr").

"CWESTIYNAU ALLWEDDOL" YR YMCHWILIAD

Sut ydym ni am i reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru edrych?


Mae diagram yn dangos rhai o'r newidiadau mewn pwyslais sydd eu hangen er mwyn rheoli tir yn gynaliadwy i'w weld yn Ffigur 6, o ddolen Amgylchedd Gogledd Iwerddon:

<http://www.nienvironmentlink.org/cmsfiles/policy-hub/files/documentation/Agri/Documents/AFSB-presentation-FEB-2013FINAL.pptx>

Ffigur 6. Cymharu dulliau gweithredu presennol a gwasanaethau ecosystemau ar gyfer ffermio yng Ngogledd Iwerddon.

Dull ffermio presennol:

- Arbenigedd - dylanwad mawr ar dda byw yn cynhyrchu cig neu laeth
- Amaethyddiaeth ddwys, wedi'i gyrru gan amodau cymhorthdal
- Allbwn sengl yn arwain at fod yn agored i glefydau a newidiadau yn y farchnad
- Taliad Fferm Sengl CAP yn brif benderfynydd o ran hyfywedd fferm
- Dibyniaeth ar danwydd ffosil am ynni, gwrteithiau a phlaleiddiaid yn gadael ffermydd yn agored i newidiadau mewn prisiau a diogelwch cyflenwad
- Rheolaeth gostus o wastraff anifeiliaid yn defnyddio dŵr ac yn gwastraffu ynni a maetholion posibl
- Dŵr ffo ffosffad a nitrad yn cyfrannu at lygru afonydd



Y dull ecosystem:

- Ffermio cymysg - allbynnau a nodau lluosog
- Tir pori parhaol yn gweithredu fel storfa garbon
- Cylchdroi cnydau yn caniatáu adnewyddu maetholion pridd naturiol ac yn lleihau'r angen i ddefnyddio plaleiddiaid
- Defnyddio tir i storio carbon yn helpu i gyrraedd targedau hinsawdd
 - Treuliad anaerobig o wastraff anifeiliaid a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill (e.e. gwynt, solar) yn darparu ynni y gellir ei ddefnyddio ar y safle neu ei werthu i'r gymuned
 - Cynhyrchu adnewyddadwy yn darparu ynni, swyddi a gyrwyr marchnad
 - Cnydau eraill (e.e. biodanwydd, ffrwythau) yn lleihau'r ddibyniaeth ar dda byw fel yr unig ffynhonnell incwm
- Cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn darparu incwm i ymgymryd ag arferion sy'n fuddiol i'r amgylchedd, gan gynnwys gwella safleoedd archeolegol a threftadaeth naturiol
- Lleihau'r risg o lifogydd i lawr yr afon drwy reoli afonydd a gorlifdiroedd
- Gwrychoedd wedi'u hadfer yn darparu peillwyr a dulliau naturiol o reoli pla
- Incwm o ddarparu mynediad ar gyfer adloniant a thwristiaeth

Pa ganlyniadau ydym ni am eu cael yn y tymor byr, canolig a hwy?


Mae'n rhaid i ni adlewyrchu'n llawn gwerth hirdymor gwirioneddol ecosystemau a'u gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau, h.y. gwneud y mwyaf o'r manteision i bobl drwy edrych ar yr ystod gyfan o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gan gynnal cyfanrwydd a gweithrediad ecosystemau er mwyn osgoi newid ecolegol cyflym ac ecolegol.

Dylem sicrhau dyfodol lle mae'r tir a'r môr yn cael eu rheoli ar gyfer "baged" o fanteision hirdymor, yn hytrach na dim ond un neu ddau brif gynnyrch gyda gorwelion byrdymor. Mae'n rhaid i ni gael cydbwysedd rhwng cadwraeth natur a "natur ar waith" sy'n darparu mwy o amrywiaeth o gyfleoedd busnes nag o dan drefniadau cymhorthdal un nwydd, gan gynnal gwydnwch natur i addasu i fygythiadau yn y dyfodol megis newid hinsawdd.


Gallai dull yr ecosystem weld Cymru sydd â diwydiant cynhyrchu bwyd a ffibr cynaliadwy yng nghefn gwlad, a'r adnoddau morol wedi'u gwarchod a'u cynaeafu o fewn terfynau hyfyw yn y môr. Byddai mwy o le gwyrdd yn gwella ansawdd bywyd yn y trefi, gyda phyllau a gwelyau cors yn cydbwysu llif stormydd ac yn darparu dewisiadau draenio cynaliadwy. Byddai plannu mwy o goed yn gwella ansawdd yr aer ar hyd ffyrdd prysur ac yn darparu ystod o fanteision dŵr, carbon a bioamrywiaeth ar ochrau dyffrynnoedd. Byddai ffynonellau ynni amrywiol, adnewyddadwy yn cael eu lleoli'n ofalus ar dir ac ar y môr, a byddai "mesurau lliniaru amgylcheddol" ar gyfer cynlluniau ffordd yn cael eu dylunio i greu manteision ecosystem lluosog. Ni fyddai unrhyw lithro ar warchod tirluniau a gwarchodfeydd natur, ond yn hytrach byddai cynnydd tuag at adeiladu bioamrywiaeth a gwella cadwraeth ar draws y tirlun cyfan, drwy drefniadau cynllunio ystyriol sy'n cynnal cydbwysedd rhwng lleoedd deniadol i fyw â lleoedd i orffwys, cael adloniant a mwynhau. Yn ei dro, byddai hyn yn gwneud Cymru yn lle mwy iach a mwy dymunol i fyw, i weithio ac ymweld â hi, nid lleiaf ar gyfer sector twristiaeth cynyddol economi Cymru.

Mae dull yr ecosystem yn ffordd o gyflawni "Cymru Fyw" sy'n cydbwysu anghenion pob sector o gymdeithas, gan gynnal y systemau naturiol gwaelodol rydym ni i gyd yn dibynnu arnynt er mwyn goroesi. Bydd llwyddiant y dull newydd yn dibynnu ar ein parodrwydd i ymgysylltu â'r cysyniad a chroesawu ei weledigaeth gynhwysol a hirdymor yn ein bywydau bob dydd.

Ffigur 7. Cymhwyso dull yr ecosystem at reoli tir.



Ffigur 8. "Gweld y gwahaniaeth". Deg dull niweidiol o reoli tir ar ochr chwith y darlun, a deg cam sy'n gwella gwasanaethau ecosystemau a chynaliadwyedd ar y dde (West Country Rivers Trust).



Beth yw'r rhwystrau sy'n ein hatal ni rhag cyflawni'r canlyniadau hyn nawr?

Safbwyntiau, deddfau a rheoliadau sy'n ddisymud ac wedi dyddio.

Cyflwynwyd barn oleuedig ar y problemau amgylcheddol/cymdeithasol rydym yn eu hwynebu, a sut y gallwn ni eu datrys, gan y fyfyrwraig raddedig o Brifysgol Bangor Jacquie McGlade (cyn Brif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop sydd erbyn hyn yn Uwch Gynghorydd Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig) yn y Gynhadledd Ewropeaidd ddiweddar ar Reoli Ecosystemau: <http://www.youtube.com/watch?v=rtXd2ccvMzw&list=PLnEOoLwKbaUMBh2Ub7-KwtUxJlrsqf279&index=4>

Roedd yr Athro McGlade hefyd wedi cyd-awduro'r brif erthygl "Comment" yn y cyfnodolyn "Nature" ar 16 Ionawr 2014, ar ddewisiadau eraill i fesurau seiliedig ar GDP traddodiadol o gynydd dynol sy'n berthnasol i Gymru, fel "gwlad fach, werdd, sy'n arwain drwy esiampl ar ddatblygu cynaliadwy" (Atodiad).

Sut ydym ni'n gorchfygu'r heriau hyn?

Mae dull yr ecosystem yn golygu adlewyrchu'n llawn gwerth hirdymor gwirioneddol ecosystemau a'u gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau, h.y. gwneud y mwyaf o'r manteision i bobl drwy edrych ar yr ystod gyfan o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gan gynnal cyfanrwydd a gweithrediad ecosystemau er mwyn osgoi newid ecolegol cyflym ac annymunol.

Mae angen addysgu llunwyr polisiâu, eu hasiantau a'r gymdeithas ehangach er mwyn gwreiddio dull yr ecosystem.

Adnabod gofynion lles ac asesu risgiau nawr ac yn y dyfodol, gan ddwyn hyn i'r arena gyhoeddus (drwy addysg a'r cyfryngau). Gwneud y mwyaf o ddadleuon am faterion rheoli adnoddau naturiol megis llifogydd, er mwyn cychwyn trafodaethau.

Bydd rhaid i reolau newid. Dwy enghraifft fach:

- 1) Mwy o hyblygrwydd wrth gymhwyso'r rheolau ynghylch plannu rhywogaethau coed heb fod yn goed cynhenid yng Nghymru, er mwyn i rywogaethau sy'n tyfu'n gyflym gael eu defnyddio i gynhyrchu ynni a biodanwydd, ac addasu i newid amgylcheddol.
- 2) Taliadau amaeth-amgylcheddol Glastir i fod yn hyblyg a bod modd eu haddasu ar gyfer anghenion lefel fferm a chae penodol.

Beth yw'r prif yrwyr polisi?

Gyrwyr uniongyrchol yw'r rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau, e.e. defnydd o dir a newid hinsawdd. Gyrwyr anuniongyrchol yw'r rhai sy'n dylanwadu ar yrwyr uniongyrchol newid, e.e. economaidd a thwf yn y boblogaeth sy'n creu mwy o alw am fwyd, ffibr, dŵr ac ynni (UK NEA 2011). Mae ystod a natur y gyrwyr sy'n effeithio ar amgylchedd Cymru yn niferus, ac mae nifer yn cael eu rhannu ag ardaloedd eraill yn y DU.

Mae gyrwyr uniongyrchol yn cynnwys:

- effeithiau twymo byd-eang a chanlyniadau amgylcheddol newid hinsawdd megis lefel y môr yn codi, newidiadau mewn tymheredd a dyddodiad, a digwyddiadau eithafol megis stormydd, sychder a llifogydd, a allai sbarduno newidiadau cyflwr di-droi'n ôl mewn systemau
- difrodi cynefinoedd - colled ffisegol uniongyrchol oherwydd newid defnydd tir gan yr aradr, y fwyell a'r tarw dur
- diraddio cynefinoedd - oherwydd esgeulustod, gor-bori, defnyddio gwrteithiau a phlaleiddiaid
- rhywogaethau estron - cyflwyno rhywogaethau estron ac ymledol
- ewtroffigedd - ar y tir yn bennaf oherwydd gwrteithiau; ffynonellau mwy cymhleth mewn dŵr croyw a'r môr
- ansawdd aer - e.e. gronynnau, ocsidau nitrogen, sylffwr deuocsid, ac ati

- cynaeafu gwyllt - e.e. difrod i stociau pysgod y môr drwy or-gynaeafu ac effeithiau sgil-ddalffa
- cemegau gwenwynig - llygrwyr a sylweddau newydd na wyddys fawr am eu heffaith, e.e. nano-ronynnau
- erydu a chywasgu'r pridd.

Mae gyrwyr anuniongyrchol yn cynnwys:

- newid cymdeithasol a demograffig, e.e. y boblogaeth yn tyfu ac yn symud, mwy o gyfoeth a defnydd
- polisiau cenedlaethol ac uwch genedlaethol, e.e. cymorthdaliadau amaethyddol Ewropeaidd
- cystadleuaeth am adnoddau ariannol i gefnogi mentrau amgylcheddol.

Mae gyrwyr polisi yng Nghymru yn cynnwys yr ystod lawn o ddeddfwriaeth (economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) sy'n cael effaith ar ecosystemau Cymru (Cyfarwyddebau Ewropeaidd, statudau llywodraeth y DU a Chymru, rheoliadau ac is-ddeddfau, fframweithiau, strategaethau, "trywydd ynni", cynlluniau, nodiadau canllaw a chynghor).

Sut gall y gyrwyr polisiau hyn gael eu llunio i orchfygu'r heriau hyn?

Drwy barhau â'r gwaith mewn fforymau rhyngwladol, yn Ewrop ac yn San Steffan, ac ar lawr y Senedd, i ail-alinio blaenoriaethau polisi tuag at wir gynaliadwyedd, a thrwy gymhwyso dull yr ecosystem fel "porth polisi", ac wrth asesu effaith polisiau.

Atodiad 1. Cefndir "Gwasanaethau Ecosystemau".

Rydym wedi dod yn gyfarwydd â'r geiriau "amgylchedd" ac "ecoleg" yn ein hiaith bob dydd, ac rydym wedi dechrau gweld geiriau jargonllyd megis "bioamrywiaeth" (y cyfoeth bywyd rydym yn rhannu'r blaned ag ef) yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Erbyn hyn mae'r termau "gwasanaethau ecosystemau" a "dull yr ecosystem" yn cael eu clywed yn fwy aml, ac mae cyn Weinidog yr Amgylchedd Cymru, John Griffiths, wedi datgan ei flaenoriaeth i weithredu "dull yr ecosystem" newydd mewn cymunedau ar draws Cymru. Felly beth yw dull yr ecosystem a sut gallai hyn effeithio ar reoli ein tirluniau a'n moroedd yng Nghymru yn y dyfodol?

"Ecosystemau" yw'r gweoedd bywyd sydd i'w gweld mewn cynefinoedd (caeau, coetiroedd, afonydd, traethau) a chydannau anfyw y cynefinoedd hyn, megis pridd, dŵr, aer a goleuni. Gwasanaethau ecosystem yw'r manteision y bydd bodau dynol yn eu cael gan yr ecosystemau hyn, gan gynnwys nwyddau megis bwyd, dŵr, ffibr, biodanwydd a meddyginiaethau, sydd yn aml yn cael eu gwerthfawrogi a'u masnachu. Mae manteision eraill o fyd natur yn llai amlwg, ond nid yn llai pwysig, megis glanhau'r cyflenwadau dŵr drwy hidlo drwy'r pridd, gwarchod rhag llifogydd drwy dwyni tywod, corysdd a choetiroedd, creu a phuro'r awyrgylch gan blancion a llystyfiant, cloi carbon mewn tir mawn, glaswelltir a fforestydd, a pheillio cnydau bwyd gan bryfed.

Mae'r "gwasanaethau rheoleiddio" hyn yn gweithredu ecosystem cyfan y Ddaear, ond maent yn dibynnu ar hyd yn oed mwy o brosesau cynnal sylfaenol gan gynnwys cylchedau dŵr, carbon a nitrogen. Mae nifer o wyddonwyr hefyd yn ystyried bioamrywiaeth fel gwasanaeth cynnal gan ei fod yn sail i'r rhan fwyaf os nad y cyfan o'r gwasanaethau ecosystemau eraill.

Mae natur hefyd yn darparu amryw o fanteision diwylliannol i fodau dynol, megis codi'r ysbryd a phleser esthetig, a'r manteision iechyd ac addysgol a ddaw drwy adloniant, hamdden a thwristiaeth.

Gwyddom erbyn hyn fod llawer o gynnydd dynol wedi dod ar draul difrod i'n hecosystemau. Buom yn defnyddio ein storfa o "gyfalaf naturiol" yn gyflymach nag y gall y Ddaear ei disodli, yn rhannol oherwydd ein barn bod nifer o adnoddau naturiol yn "nwyddau am ddim" heb unrhyw werth ariannol uniongyrchol. Yn ddiweddar, mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i asesu'r difrod rydym wedi'i achosi i ecosystemau a rhoi gwerth ar yr asedau naturiol sydd gennym ar ôl. Roedd "Asesiad Ecosystem y Mileniwm" a noddwyd gan y Cenhedloedd Unedig wedi amcangyfrif bod 60% o ecosystemau'r byd wedi'u difrodi neu mewn cyflwr dirywiol. Mae Llywodraeth y DU wedi noddi "Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol" mwy manwl (NEA), a adroddodd yn 2011 fod tua 20% o'r gwasanaethau a gyflenwir gan brif ecosystemau y DU yn gwella, 50% mewn cyflwr niwtral a 30% yn dirywio.

Yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae NEA yn amcangyfrif bod 20% o'r gwasanaethau ecosystemau cynefinoedd wedi gwella, nid yw 31% wedi dangos unrhyw newid, ac mae 49% wedi dirywio. Mae ardaloedd problematig yn cynnwys pysgodfeydd morol, amrywiaeth rhywogaethau gwyllt, a rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan briddoedd. Mae enghreifftiau o'r math o "gyfaddawd" a wnaed yng Nghymru yn ystod y ganrif ddiwethaf yn cynnwys draenio rhostiroedd mawn ar gyfer coedwigoedd, newid y rhan fwyaf o'n glaswelltiroedd lled-naturiol i wella tir pori, a cholli ardaloedd o dwyni tywod i dir amaeth, coedwigaeth, tai a thwristiaeth.

Fyddem ni'n gwneud yr un penderfyniadau pe byddai dealltwriaeth well gennym o wir werth ac amrywiaeth y manteision rydym yn eu cael gan ecosystemau? Amcangyfrifir bod gwerth blynyddol gwasanaethau ecosystemau'r byd yn cael ei ddefnyddio fel "nwyddau am ddim" gan gymdeithas ar ddwbl y lefel o GDP byd-eang. Mae'r difrod i ecosystemau a bioamrywiaeth yn costio'r economi byd-eang triliynau o ddoleri bob blwyddyn, ac yn y DU mae ein cynefinoedd a'n gwasanaethau ecosystemau yn werth biliynau o bunnoedd bob blwyddyn i'r economi. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod yr amgylchedd yn cyfrannu £8.8 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru, ffigur a fyddai'n llawer uwch pe byddai'r ystod lawn o werthoedd o wasanaethau ecosystemau i gymdeithas Cymru yn cael eu cynnwys. Mae astudiaethau ar y gweill bellach yng Nghymru ac yn rhyngwladol i amcangyfrif "gwir gostau amgylcheddol" datblygiad a chynnydd dynol.

Roedd y Papur Gwyrdd "Cymru Fyw" yn cynnig mabwysiadu "dull yr ecosystem" yng Nghymru. Yn syml, mae'n golygu adlewyrchu'n llawn gwir werth hirdymor ecosystemau a'u gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau, h.y. gwneud y mwyaf o'r manteision i bobl drwy edrych ar yr ystod gyfan o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gan gynnal cyfanrwydd a gweithrediad ecosystemau er mwyn osgoi newid ecolegol cyflym ac annymunol.

Drwy ei rhaglen "Cymru Fyw", mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu set glir o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys newidiadau sefydliadol a rheoleiddiol, a gyrru system o fecanweithiau cyflawni lleol integredig ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol. Mae newidiadau eisoes ar droed i symleiddio'r trefniadau rheoleiddio yng Nghymru ac mae Un Corff Amgylcheddol "Cyfoeth Naturiol Cymru" wedi cael ei greu i ymgymryd â'r gwaith. Bydd cyfres o brosiectau peilot yn profi sut y bydd dull yr ecosystem yn gweithio a sut i gydbwysu blaenoriaethau ynghylch materion megis ansawdd dŵr, adnoddau dŵr, bioamrywiaeth, cynllunio a datblygu.

Atodiad 2. Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru (WERH)

Mae WERH yn uned casglu tystiolaeth troi gwyddoniaeth yn bolisi, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i lleoli ym Mhrifysgol Bangor a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg Bangor. Mae ei Bwrdd Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau hyn a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ar hyn o bryd, mae dau aelod o staff gan WERH (Cyfarwyddwr a Gweinyddwr) ac mae'n recriwtio swyddog cyfathrebu gwyddoniaeth ar hyn o bryd. Mae WERH yn trefnu gweithdai a chynadledau i ddod â gwyddonwyr a llunwyr polisiâu ynghyd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yng Nghymru. Mae WERH hefyd yn paratoi briffiau ac adolygiadau ar bynciau amgylcheddol cysylltiedig â pholisi. Sefydlwyd WERH yn 2007 ac i gychwyn roedd yn gweithio ar themâu Strategaeth yr Amgylchedd 2006 Llywodraeth Cymru (newid hinsawdd; defnydd cynaliadwy o adnoddau; amrywiaeth unigryw; tirluniau a morluniau; ansawdd amgylcheddol lleol a pheryglon amgylcheddol). Felly ni chafodd ei annog i weithio ym maes rheoli tir (oedd yn dod o dan yr Adran Materion Gwledig) neu ddyblygu ymdrechion Arsyllfa Wledig Cymru. Mae gwaith diweddar WERH wedi canolbwyntio ar wasanaethau ecosystemau, rheoli tir integredig, newid hinsawdd a monitro amgylcheddol.

